

# Adroddiad Blynyddol 2006/07

POSTCOMM

## Ynglŷn â Postcomm

Mae Postcomm – y Comisiwn Gwasanaethau Post – yn rheoleiddiwr annibynnol. Ein swyddogaeth yw sicrhau y caiff gwasanaeth post cyffredinol ei ddarparu ac i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr post yn y DU drwy gyflwyno dewis drwy gystadleuaeth. Fe'n sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 ac fe'n hystyri fel un o adrannau anweinidogol y llywodraeth.

Caiff ein polisïau eu llywio gan fwrdd o gomisiynwyr annibynnol, o dan arweiniad ein cadeirydd, Nigel Stapleton. Rhyngddynt, mae ganddynt brofiad helaeth ym maes cystadleuaeth, busnes, materion defnyddwyr, materion rhanbarthol, gweithrediadau'r post, undebau llafur, y llywodraeth a rheoleiddio.

Gweledigaeth Postcomm wrth gyflawni ei ddyletswyddau yw: *amrywiaeth o wasanaethau post dibynadwy, arloesol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaeth post cyffredinol, a werthfawrogir gan gwsmeriaid ac a gyflwynir drwy farchnad bost gystadleuol.*

Mae Postcomm wedi'i gwneud yn ofynnol i Post Brenhinol barhau i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, wedi cyflwyno cystadleuaeth ac wedi trwyddedu nifer o gwmnïau i gystadlu â Post Brenhinol. Gan fod Post Brenhinol mewn sefyllfa gref o hyd o ran y farchnad llythyrau, rydym hefyd yn rheoleiddio rhai o'r prisiau y gall eu codi ac ansawdd ei wasanaeth.

Mae Postcomm hefyd yn monitro ac yn rhoi cyngor i'r llywodraeth ar rwydwaith swyddfa'r post. Gwna hyn drwy gyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Adran Masnach a Diwydiant.

## **Y COMISIWN GWASANAETHAU POST**

### **Adroddiad Blynyddol 2006/07**

At: Y Gwir Anrhydeddus Alistair Darling AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant.

Amgaeaf adroddiad y Comisiwn ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 fel sy'n ofynnol gan Adran 45(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000.

Nigel Stapleton  
Cadeirydd, Y Comisiwn Gwasanaethau Post

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 45(4) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 12 Mehefin 2007  
HC 547 Llundain: Y Llyfrfa £13.50

POSTCOMM

Postal Services Commission,  
6 Hercules Road,  
London SE1 7DB

**[www.psc.gov.uk](http://www.psc.gov.uk)**

# **Strategaeth Postcomm**

## **Gwasanaeth cyffredinol**

Sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol fforddiadwy.

## **Diogelu buddiannau cwsmeriaid**

Lle nad oes ganddynt lawer o ddewis mewn gwirionedd, bydd Postcomm yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael budd o wasanaeth cyffredinol fforddiadwy a diogelwch digonol o ran prisiau ac ansawdd gwasanaeth.

## **Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy**

Ein nod yw rhoi dewis i gwsmeriaid drwy gystadleuaeth effeithlon a chynaliadwy rhwng gweithredwyr post.

## **Rhoi cyngor ar rwydwaith swyddfa'r post**

Ein nod yw sicrhau y caiff penderfyniadau'r llywodraeth ar ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post eu llywio gan ymchwil, gwybodaeth a chyngor gan Postcomm.

## **Meithrin cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid**

Mae ein rhanddeiliaid yn amrywio o gwsmeriaid a gweithredwyr post mawr, i adrannau'r llywodraeth, undebau llafur, Golwg ar Bost, y Senedd a'r gweinyddiaethau datganoledig. Ein nod yw cynnal a chefnogi cydberthnasau cryf gyda phob grŵp o rhanddeiliaid drwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn ffordd ragweithiol.

## **Defnyddio a datblygu adnoddau yn effeithiol**

Rydym am fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon, gyda staff ymrwymedig, uchel eu cymhelliant, a ystyrir yn barhaus fel y sefydliad gorau o'i gymharu â'n grŵp o reoleiddwyr tebyg eraill.

## Adroddiad y Cadeirydd

***Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r flwyddyn lawn gyntaf pan weithredwyd dwy o fentrau polisi pwysig iawn Postcomm. Dilëwyd monopoli hirsefydledig Post Brenhinol ar y farchnad bost yn llwyr ar ddechrau 2006 a daeth rheolaeth prisiau ac ansawdd gwasanaeth pedair blynedd newydd i rym ar 1 Ebrill 2006.***

***Ein casgliadau cychwynnol yw bod y buddiannau i gwsmeriaid o'r farchnad a ryddfrydolwyd yn datblygu'n helaeth yn unol â'n disgwyliadau. Fodd bynnag, mae Post Brenhinol a'r gweithredwyr newydd fel ei gilydd o'r farn bod yr amodau i gystadlu lawer yn anoddach na'r hyn yr oeddent hwythau a ninnau wedi'i ddisgwyl. Mae Post Brenhinol yn priodoli nifer o'i broblemau i effaith penderfyniadau polisi Postcomm, ac yn enwedig i'r diffyg rhyddid masnachol o ganlyniad i reoliadau beichus.***

***Mae adroddiad y prif weithredwr, sy'n dilyn, yn cwmpasu'r tasgau allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, felly byddaf yn canolbwyntio ar archwilio effaith gynnar y newidiadau hyn yn fras yn fy adroddiad i.***

### **Y farchnad bost a ryddfrydolwyd**

Rhoddwyd trwyddedau i bedwar gweithredwr newydd ers i'r farchnad gael ei rhyddfrydoli'n llwyr. Maent yn ymuno â'r 12 o weithredwyr eraill y rhoddwyd trwyddedau iddynt ar ôl i Postcomm agor traean o'r farchnad i gystadleuaeth - gan gwmpasu cwsmeriaid swmp bost mwy o faint - nôl ym mis Ebrill 2003.

Ar ôl bron i bedair blynedd o ryddfrydoli rhannol, mae gan Post Brenhinol, i raddau helaeth, fonopoli ar y filltir olaf, gyda llai nag 1 y cant o'r post bellach yn cael ei ddsbarthu pen i'r pen gan weithredwyr eraill. Nid ydym yn disgwyl i'r uchafiaeth hon dros y filltir olaf leihau'n sylweddol yn y tymor canolig gan ei bod yn profi'n anodd iawn i weithredwyr newydd gystadlu yn erbyn arbedion maint Post Brenhinol a'i fraint unigryw o fod wedi'i eithrio rhag codi TAW.

Fodd bynnag, mae'r gystadleuaeth o ran y broses ddsbarthu gychwynnol wedi datblygu i raddau mwy helaeth. Ar hyn bryd caiff bron chwarter o'r swmp bost busnes ei gasglu gan weithredwyr eraill a'i drosglwyddo i Post Brenhinol i'w ddsbarthu dros y filltir olaf. Cedwir mwy na 70 y cant o gyfanswm y refeniw, yn y strwythur cystadleuaeth mynediad hwn, gan Post Brenhinol.

### **Buddiannau i gwsmeriaid**

Mae'r cwsmeriaid mawr hynny sydd wedi defnyddio gweithredwr arall wedi dweud wrthym eu bod wedi sicrhau costau is a gwasanaeth wedi'i deilwra'n well i'w hanghenion penodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ansawdd y gwasanaeth a'i ddibynadwyedd wedi bod cystal os nad yn well na'r hyn y mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl gan Post Brenhinol. Yn ddiweddar, mae'r cystadleuwyr wedi dechrau buddsoddi mewn offer didoli'r post sydd bellach yn eu galluogi i wneud cynigion deniadol i gwsmeriaid busnesau bach a chanolig hefyd.

Mae pawb wedi elwa o'r gwelliannau sylweddol i ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol a fu'n nodwedd bwysig o ymateb cychwynnol y cwmni i gystadleuaeth.

## **Heriau mawr i Post Brenhinol**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf tanfuddsoddwyd yn sylweddol ym musnes Post Brenhinol a rhwystrwyd ei effeithlonrwydd ymhellach gan arferion gwaith. Cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai angen sicrhau gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd ynghyd â llawer mwy o wariant ar beiriannau prosesu post newydd er mwyn i Post Brenhinol lwyddo mewn marchnad a ryddfrydolwyd.

Roedd ein rheolaeth prisiau yn seiliedig ar wariant o dros £1 biliwn at y diben hwn hyd at 2010. Fodd bynnag, mae oedi wrth gwblhau trafodaethau rhwng y cwmni a'i randdeiliad am y pecyn ariannu priodol wedi golygu bod dechrau'r rhaglen foderneiddio hon o leiaf flwyddyn y tu ôl i'r cynllun. Yn ddiau, mae'r oedi hwn yn cael effaith andwyol ar allu'r cwmni i lwyddo mewn marchnad a ryddfrydolwyd.

Yr hyn a ddaeth lawer yn gliriach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw bod rhaid i Post Brenhinol a chystadleuwyr newydd sy'n ymuno â'r farchnad fynd i'r afael â her lawer mwy o faint na dim ond cystadleuaeth o ran post. Mae'n bosibl i bost gael ei ddisodli gan unrhyw un o blith nifer gynyddol o gyfryngau cyfathrebu data amgen. Mae rhannau o'r refeniw hwn yn cael ei golli i'r e-bost, negeseuon testun neu gyfryngau digidol eraill. Ochr yn ochr â hynny, mae post uniongyrchol - sy'n cyfrif am bron i 40 y cant o'r refeniw post - yn cystadlu o ran effeithiolrwydd costau â chyfryngau hyrwyddo eraill, yn cynnwys hysbysu ar y we.

O gymharu â nifer o weithredwyr post cyhoeddus cenedlaethol eraill, ni fu Post Brenhinol yn rhagweithiol iawn o ran ymestyn ei bortffolio cynnyrch i wrthsefyll y bygythiadau gan gyfryngau cystadleuol, ac ymelwa ar y cyfleoedd a gynigir ganddynt. Mae'r bygythiadau yn cael eu dwysauá gan y ffaith bod post wedi bod yn cynyddu mewn pris wrth i Post Brenhinol geisio ariannu ei raglen foderneiddio, talu costau ei becyn pensiwn buddiant diffiniedig hael ac adfer y diffyg sylweddol yn ei gronfa bensiwn. Gyda phris yr holl gyfryngau cystadleuol, fwy neu lai, yn gostwng mewn termau real, gall hyn gyflymu'r amser a gymer i gyfryngau eraill ddisodli post traddodiadol o bosibl.

Mae amlygu Post Brenhinol i gystadleuaeth wedi gwneud defnyddwyr busnes yn fwy ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, pa un ai gan ddarparwyr post

eraill neu gan gyfryngau cyfathrebu eraill. Yn fy marn i, yr allwedd i ehangu'r farchnad bost yw canolbwyntio ar sicrhau yr ychwanegir mwy o werth i'r cynnyrch - gwerth a ganfyddir naill ai gan y rhai sy'n anfon neu'n derbyn post, neu'r ddau. Gall ychwanegu gwerth at gynnyrch post alluogi'r defnyddiwr i greu mwy o refeniw neu ddarparu gwell boddhad i'r derbynydd. Os yw ychwanegu gwerth yn golygu bod post yn fwy effeithiol na chyfryngau eraill, nid oes angen cadw prisiau i lawr.

## **Effaith rheoleiddio**

Fis Chwefror diwethaf, galwodd Post Brenhinol am adolygiad radical o'r ffordd y caiff y farchnad bost ei rheoleiddio. Mynegodd y farn nad yw'r fframwaith presennol yn addas ar gyfer amgylchedd heddiw a'i fod yn achosi pwysau sylweddol ar y cwmni. Er na ddylai graddau'r gystadleuaeth yr amlygwyd Post Brenhinol iddi hyd yn hyn beri risg i ariannu gwasanaeth cyffredinol o safon uchel, mae'r cwmni wedi asesu mai dyma yn union sy'n digwydd.

Cais Post Brenhinol yw y dylai Postcomm ganiatáu iddo gystadlu'n fwy teg ac agored yn y farchnad busnes ac y dylem gyfyngu ar ein hymyriadau rheoleiddio i bost wedi'i stampio. Rydym yn archwilio'r holl ddadleuon hyn yn llawn ac yn wrthrychol.

Rhaid i ni fod yn siŵr bod y fframwaith rheoleiddio yn gymesur ac nad yw'n cyflwyno canlyniadau gwrthnysig. Mae hwn yn fater allweddol yr ydym wedi bod yn ei gwmpasu yn ein Hadolygiad o'r Strategaeth. Lanswyd hwn ym mis Awst 2006 ac rydym wedi buddsoddi llawer o amser ynddo ers hynny. Caiff ein barn sy'n deillio o'r adolygiad hwn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid yr haf hwn.

Ein prif gonsyrn yw hyd yn oed lle y bwriedir i'n mentrau rheoleiddio gymell y cwmni - er enghraifft i sicrhau codiadau mewn costau sydd o dan chwyddiant a mynd ar drywydd arloesed gwirioneddol - prin yw'r dystiolaeth hyd yma eu bod yn cyflawni'r effeithiau bwriadedig. Fodd bynnag, yn sgîl y dirywiad sydyn diweddar ym mherfformiad ariannol Post Brenhinol, rydym bellach wrthi'n ail-archwilio nodweddion rheolaeth prisiau 2006-2010 sef yr hyn sydd â'r potensial mwyaf i gael effaith andwyol ar ei berfformiad, yn ôl Post Brenhinol. Mae un ffrwd waith yn cwmpasu adolygiad o'r prisiau y gall Post Brenhinol eu codi am ddsbarthu post dros y filltir olaf, lle y dadleua'r cwmni y mae'n colli arian ar hyn o bryd ar bob eitem o bost a dderbynnir gan weithredwyr mynediad. Mae'r ail ffrwd waith yn cynnwys dymuniad i gael mwy o hyblygrwydd i gynyddu prisiau er mwyn sicrhau y gall y cwmni alinio'i brisiau â'i gostau yn well.

## **Tîm gweithredol a chomisiynwyr**

Bu'r llwyth gwaith yr aeth tîm Postcomm i'r afael ag ef yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn drwm iawn. Mae fy nghyd-gomisiynwyr yn ymuno â mi wrth gydnabod rhinweddau rhagorol y tîm sydd wedi cyflawni llawer ond sydd

hefyd wedi sicrhau arbedion sylweddol yn erbyn gwariant wedi'i gyllidebu, a hynny drwy ddefnyddio llai o wasanaethau ymgynghorol yn bennaf.

Bu'n flwyddyn o newid sylweddol hefyd o ran aelodaeth y comisiwn. Ymddeolodd dau o'n comisiynwyr cyntaf - Janet Lewis-Jones a Robin Aaronson - ar ddiwedd eu cyfnodau ac rydym wedi croesawu Simon Prior-Palmer a'r Athro Stephen Littlechild yn eu lle. Yn ogystal, penodwyd ein dirprwy brif weithredwr - Richard Moriarty - yn gomisiynydd ochr yn ochr â'n prif weithredwr, Sarah Chambers. Rydym wedi elwa'n fawr o'r cyngor a'r profiad a gyfrannodd Janet a Robin i'n trafodaethau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ond rydym yn ffodus o fod wedi sicrhau olynwyr cryf.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi fy ailbenodi fel cadeirydd am bedair blynedd arall ar ôl i mi gwblhau fy nghyfnod cychwynnol o dair blynedd ym mis Ionawr 2007. Rwyf yn falch iawn o'r penderfyniad hwnnw oherwydd bod y rôl yn un ddiddorol iawn. Er nad yw'r heriau sy'n wynebu Postcomm fymryn yn llai arswydus na phan gefais fy mhenodi gyntaf, rwyf yn hyderus y gallwn barhau i sicrhau cynnydd.

Nigel Stapleton

## Adroddiad y prif weithredwr

Ein blaenoriaeth gyntaf yw diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol - lle mae pris stamp yn gylygu y gellir anfon llythyr neu baced i unrhyw le yn y DU, boed hynny i'r stryd nesaf, neu 700 o filltiroedd i ffwrdd. Gwasanaeth cyffredinol am bris unffurf sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, ac ni ellir dileu hynny heb gymeradwyaeth y Senedd.

Diolch i gystadleuwyr eraill sydd wedi ymuno â marchnad lle roedd gan un gweithredwr fonopoli gynt, mae Post Brenhinol wedi codi safonau ei wasanaeth i lefelau newydd. Dim ond tair blynedd yn ôl y methodd y cwmni â chyrraedd ei holl dargedau gwasanaeth. Yn 2006/07, disgwylir iddo ragori ar bob un ohonynt ac eithrio dau.

Bellach mae llai o 'eithriadau' i'r gwasanaethau cyffredinol (cyfeiriadau lle na all Post Brenhinol ddsbarthu post yn ddyddiol) a dengys ymchwil fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar y gwasanaeth a gânt. Mae proffidioldeb parhaus Post Brenhinol, er ei fod yn is na'r blynyddoedd diwethaf, yn golygu bod y gwasanaeth cyffredinol yn fwy diogel nag yr oedd cyn i'r gystadleuaeth gael ei chyflwyno, pan roedd Post Brenhinol yn colli £1 filiwn bob dydd.

### **Edrych i'r dyfodol**

Mewn oes lle mae pobl yn cyfathrebu fwyfwy gan ddefnyddio e-bost neu negeseuon testun ac, yn gwneud eu siopa a'u bancio ar-lein, mae'n bwysig ein bod yn edrych i'r dyfodol ac yn ystyried pa fath o wasanaethau post cyffredinol y bydd eu hangen ar ddefnyddwyr (a pha wasanaethau y byddant yn barod i dalu amdanynt) yn y dyfodol. Felly, penderfynwyd cynnal Adolygiad mawr o'r Strategaeth, y sonnir amdano gan ein cadeirydd yn ei adroddiad.

Ers i ni agor ein marchnad yn llawn ym mis Ionawr 2006, mae gan y DU y farchnad bost fwyaf a ryddfrydolwyd yn y byd. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddewis a gwell gwerth am arian a gwasanaethau arloesol i gwsmeriaid busnes mawr, a gwasanaeth gwell i bawb, yn cynnwys cwsmeriaid domestig a'r rhai sy'n derbyn post.

Ond bu'n rhaid newid rhywfaint ar y farchnad aml-weithredwr er mwyn helpu Post Brenhinol i weithredu mewn amgylchedd a ryddfrydolwyd yn hytrach na chael diogelwch monopoli statudol.

### **Marchnad deg**

Drwy ei drwydded, rydym yn rheoleiddio llawer o'r prisiau y gall Post Brenhinol eu codi er mwyn sicrhau nad yw'n defnyddio'i faint a'i raddfa i roi cwsmeriaid a

gweithredwyr eraill o dan anfantais. Fodd bynnag, os cred Post Brenhinol ei fod wedi'i lyffetheirio'n ormodol gan un o amodau'r drwydded, gall wneud cais i Postcomm i'w ei addasu neu ei ddileu.

Cawsom nifer o geisiadau eleni, yn cynnwys un gan Post Brenhinol yn dweud bod y bwllch a ganiateir rhwng yr hyn y mae'n ei godi ar gystadleuwyr i gael mynediad i'w rwydwaith a'i bris manwerthu ei hun am wasanaeth tebyg yn rhy fawr. O'u rhan hwy, dywed y gweithredwyr fod y bwllch yn rhy fach i'w galluogi i gael ffin resymol. Rydym yn ystyried ein hymateb.

Mae'r farchnad newydd wedi arwain at rywbeth nas gwelwyd erioed o'r blaen: bellach mae Post Brenhinol yn tendro ar gyfer contractau - arfer nas gwelwyd pan roedd gan y cwmni fonopoli.

Fodd bynnag, mae gan Post Brenhinol afael mor gadarn ar y farchnad o hyd, gwnaethom lunio cyfres o reolau i sicrhau na fydd yn defnyddio'i rym - yn anfwriadol o bosibl - i ennill contractau yn annheg ar draul cystadleuwyr nad oes ganddynt bŵer yn y farchnad. Ym mis Mawrth 2007, gwnaethom gyhoeddi cyfarwyddyd i'r diwydiant post fel bod pawb yn deall y rheolau - ac i bwy y dylent gwyno os ydynt yn anfodlon.

### **Prisio'r Post yn ôl Maint a Phwysau**

Mae'r farchnad newydd wedi gorfodi Post Brenhinol i edrych yn wrthrychol ar ei holl wasanaethau er mwyn sicrhau bod ei brisiau yn fwy cyson â'i gostau. Ym mis Awst 2006, cyflwynodd y cwmni strwythur Prisio'r Post yn ôl Maint a Phwysau (PiP) lle mae pris postio yn dibynnu ar faint, yn ogystal â phwysau, llythyr neu baced.

O dan PiP, cododd prisiau post ysgafn ond swmpus sy'n ddrutach i'w ddioli, ei gludo a'i ddosbarthu, ond gostyngodd costau postio eitemau trymach, fel llyfrau a chatalogau. Cafodd unrhyw gynnydd mewn prisiau ei gydbwysu gan ostyngiadau mewn prisiau eraill er mwyn sicrhau bod y dull o ailstrwythuro prisiau yn niwtral o ran refeniw yn gyffredinol.

Ers hynny, mae Post Brenhinol wedi gwneud cais i Postcomm i weithredu system brisio ar sail parthau ar wasanaethau swmp bost manwerthu penodol. Hyd yn hyn mae Post Brenhinol wedi dosbarthu bron pob eitem o bost, yn cynnwys swmp bost, am gyfraddau heb wahaniaethu'n ddaearyddol. Fodd bynnag, mae'r cwmni'n dadlau ei bod yn fwy costus i ddosbarthu post yn Llundain Fwyaf ac ardaloedd gwledig ynysig na rhanbarthau busnes eraill a'r hyn a elwir ganddo'n ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel a chanolig.

Mae'n cynnig cynyddu prisiau gwasanaethau lle mae'r costau'n uwch, a'u gostwng lle mae'r post yn rhatach i'w ddosbarthu. Mae angen iddo gael cymeradwyaeth Postcomm i newid ei strwythur prisio yn y ffordd hon. Ni fydd y trefniadau hyn yn effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol un pris i bobman ar gyfer

post wedi'i stampio. Rydym yn ymgynghori ar gynnig Post Brenhinol ac yn ei ddadansoddi ar hyn o bryd.

### **Rhwydwaith swyddfa'r post**

Yn ein hadroddiad blynyddol ym mis Hydref 2006 i'r Adran Masnach a Diwydiant ar rwydwaith swyddfa'r post, gwnaethom dynnu sylw at yr angen i wneud penderfyniadau anodd a hirddisgwyliedig ar fyrder i gynllunio dyfodol rhwydwaith swyddfa'r post.

Nid ydym yn rheoleiddio swyddfeydd post ond rydym yn monitro ac yn ymchwilio i ddatblygiadau yn y rhwydwaith o dros 14,000 o swyddfeydd ac yn rhoi cyngor annibynnol i'r llywodraeth.

Y flwyddyn flaenorol, collodd y rhwydwaith £111 miliwn cyn cael cymhorthdal blynyddol y llywodraeth o £150 miliwn. Yn yr un cyfnod, tynnodd adrannau'r llywodraeth fel y DVLA a DWP eu gwasanaethau yn ôl o swyddfeydd post, a gostyngodd referniw o drafodion ar ran y llywodraeth £168 miliwn.

Yn ein hadroddiad, anogwyd y llywodraeth i ystyried rôl gymdeithasol ehangach swyddfeydd post mewn cymunedau gwledig yn ogystal â'r angen i sefydlu busnes cynaliadwy, sefydlog.

Ym mis Rhagfyr 2006 cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddogfen ymgynghori ar ddyfodol y rhwydwaith. Ymhlith pethau eraill, roedd yn ceisio barn ar gynigion i gau hyd at 2,500 o swyddfeydd post, buddsoddi £1.7 biliwn yn y rhwydwaith dros bum mlynedd a moderneiddio ac ailstrwythuro'r rhwydwaith er mwyn datblygu cyfleoedd busnes newydd.

Gallwch ddarllen crynodeb o'n hymateb i'r Adran Masnach a Diwydiant ar dudalen 34.

### **Siarad â'n rhanddeiliaid**

Caiff ein syniadau, ein cynlluniau a'n polisiâu eu llywio gan ein rhanddeiliaid niferus. Mae unrhyw un sydd erioed wedi postio neu dderbyn llythyr yn rhanddeiliad, fel ag y mae Post Brenhinol, gweithredwyr post eraill, cwsmeriaid swmp bost, cymdeithasau masnach, undebau llafur, Aelodau Seneddol a llawer mwy.

Gwnaethom gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn gyda phobl yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chynhaliwyd ein Fforwm Llundain blynyddol ym mis Mai a oedd yn canolbwyntio ar *Roi'r Cwsmer yn Gyntaf*. Ym mis Gorffennaf 2006, pan oedd y drafodaeth am ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post yn ei hanterth, cynhaliwyd cynhadledd fawr ar y mater yn Birmingham. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdai a seminarau ar bynciau arbenigol.

Bu siaradwyr Postcomm yn lleisio'n barn mewn saith cynhadledd fawr ac, ar lefel ryngwladol, cynhaliodd grwpiau bach o Postcomm drafodaethau ag awdurdodau rheoleiddio, sefydliadau post mawr a chwsmeriaid mawr ar draws Ewrop a Gogledd America.

Buom yn cefnogi cynigion drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar ei Gyfarwyddeb post nesaf, sy'n bwriadu agor marchnad bost Ewrop yn llawn i gystadleuaeth erbyn 2009. Erbyn hynny, dylem fod ymhell ar y ffordd i weithredu casgliadau ein Hadolygiad o'r Strategaeth a gobeithiaf y byddwn hyd yn oed yn nes at gyflawni ein gweledigaeth, sef: *amrywiaeth o wasanaethau post dibynadwy, arloesol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaeth post cyffredinol, a werthfawrogir gan gwsmeriaid ac a gyflwynir drwy farchnad bost gystadleuol.*

Sarah Chambers

## Comisiynwyr Postcomm

Mae wyth comisiynydd Postcomm, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lunio'r fframwaith polisi ar gyfer swyddogaethau rheoleiddiol ac ymgynghorol Postcomm. Caiff pob comisiynydd ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Maent yn cyfarfod tuag un ar ddeg o weithiau y flwyddyn ac maent yn gyfrifol am lunio a diwygio strategaeth Postcomm a chymeradwyo trwyddedau, gorchmynion gorfodi, dirwyon ariannol a phob cynnig a phenderfyniad pwysig sy'n ymwneud â pholisïau.

Maent hefyd yn cymeradwyo cynllun busnes Postcomm ac yn monitro perfformiad yn erbyn amcanion y cynllun busnes. Caiff materion gweithredol o ddydd i ddydd eu dirprwyo i'r prif weithredwr a staff Postcomm.

Ar wahân i brif weithredwr a dirprwy brif weithredwr Postcomm, mae pob un o'r comisiynwyr, a restrir isod, yn gweithio'n rhan amser ar fusnes Postcomm.

**1** Bu **Nigel Stapleton** yn gadeirydd ar Postcomm ers mis Ionawr 2004, pan gafodd ei benodi am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Ym mis Tachwedd 2006, ymestynnwyd y cyfnod hwn am bedair blynedd arall. Mae'n gweithio ddeuddydd a hanner yr wythnos i ni, gan gyfuno'r rôl hon ag eraill fel cyfarwyddwr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain ccc, a chyfarwyddwr anweithredol Reliance Security Group ccc. Roedd gyrfa fusnes gynharach Mr Stapleton yn cynnwys 18 mlynedd gydag Unilever a 13 mlynedd yn y cwmni cyhoeddi a gwybodaeth Reed Elsevier. Mae Mr Stapleton yn Gymrawd o Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli ac mae ganddo radd mewn economeg o Brifysgol Caergrawnt.

**2** Bu **Simone Bos** yn gomisiynydd ers mis Mawrth 2004, pan gafodd ei phenodi am gyfnod o dair blynedd. Yn dilyn hynny, estynnwyd ei phenodiad tan fis Medi 2007. Wedi'i lleoli yn yr Iseldiroedd, mae Ms Bos yn gweithio fel ymgynghorydd annibynnol ym maes strategaeth fusnes a materion Ewropeaidd. Mae'n cyfuno ei rôl fel un o gomisiynwyr Postcomm ag aelodaeth o fwrdd goruchwylio Holland Casino; Bwrdd Sefydliad Rhaglen Canser Merched, Bwrdd Ymgynghorol Allanol IBMS/INHOLLAND (Prifysgol Gwyddoniaeth Gymhwysol) a phwyllgor rheoli rhanbarthol UNICEF . Roedd gyrfa fusnes gynharach Ms Bos yn cynnwys 10 mlynedd gyda TPG, sef gweithredwr post yr Iseldiroedd.

**3** Penodwyd **Tony Cooper** yn gomisiynydd ar 1 Mehefin 2000. Ers hynny, ymestynnwyd ei benodiad ddwywaith a bellach mae ei benodiad yn parhau tan fis Mai 2009. Mae'n cyfuno ei waith i Postcomm â rolau fel cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear; cadeirydd bwrdd Combined Nuclear Pension Trustees Ltd ac fel Comisiynydd Coedwigaeth. Mae Mr Cooper yn gyn gyd-ysgrifennydd cyffredinol Prospect, yr undeb i beirianwyr, gwyddonwyr, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr. Mae hefyd yn gyn aelod o Gyngor Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur (TUC).

**4** Penodwyd **Wanda Goldwag** yn gomisiynydd ym mis Ebrill 2005 am gyfnod o dair blynedd. Mae'n cyfuno ei gwaith i Postcomm â'i rôl fel ymgynghorydd rhan-amser i Smedvig Venture Capital ac fel cyfarwyddwr anweithredol ar y Gymdeithas Hawliau Perfformio, sy'n casglu ffioedd trwydded ar gyfer perfformio a darlledu gweithiau cerddorol yn gyhoeddus. Mae hefyd yn gyfarwyddwr ar ddau gwmni Adnoddau Dynol, sef Challenge Consultancy Ltd, yr arbenigwyr ar amrywiaeth, a You at Work Holdings Ltd, ac yn gadeirydd gweithredol ar ddau gwmni marchnata, sef Goldwag Empson and Otitoju Ltd, asiantaeth gwasanaethau teyrngarwch, a PDV Ltd, sef cwmni cronfa ddata'r rhyngwlad. Mae gan Ms Goldwag fwy na 25 mlynedd o brofiad mewn marchnata uniongyrchol, ac roedd yn gyfarwyddwr gweithredol i Air Miles.

**5 Yr Athro Stephen Littlechild** B Com, Ph D, D Sc (Anrh), D Civ Law (Anrh), a benodwyd ar 1 Gorffennaf 2006 am dair blynedd, oedd cyfarwyddwr cyffredinol cyflenwi trydan cyntaf y DU a phennaeth y Swyddfa Rheoleiddio Trydan (OFFER) o 1989-1998. Ers 1999 bu'n ymgynghorydd polisi i lywodraethau, Banc y Byd, rheoleiddwyr a chwmnïau mewn nifer o wledydd yn ogystal â'r DU. Ar hyn o bryd, mae'n aelod o'r Grŵp Cynghori ar Reoli Prisiau Meysydd Awyrennau yr Awdurdod Awyrennau Sifil. Mae hefyd yn aelod o banel Ofgem o ymgynghorwyr economaidd. Mae'n athro emeritws ym Mhrifysgol Birmingham ac yn uwch gydymaith ymchwil yn Ysgol Fusnes Judge, Prifysgol Caergrawnt.

**6** Treuliodd **Simon Prior-Palmer**, a benodwyd ar 1 Gorffennaf 2006 am gyfnod o dair blynedd, 32 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau bancio buddsoddi tan 2005. Ers ymddeol o fancio buddsoddi llawn amser, mae wedi datblygu portffolio o weithgareddau. Mae'n un o ymddiriedolwyr bwrdd Cymorth Canser Macmillan ac mae'n gyfarwyddwr Gabriel Resources Ltd, cwmni adnoddau naturiol rhestredig yn Toronto. Graddiodd Mr Prior-Palmer o Rydychen yn 1973 gyda gradd MA mewn gwleidyddiaeth, athroniaeth ac economeg. Mae'n Gymrawd o Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (RSA) ac mae'n aelod o gyngor y Gymdeithas.

**7** Penodwyd **Sarah Chambers** yn brif weithredwr Postcomm ym mis Tachwedd 2004 am gyfnod o bedair blynedd. Dechreuodd weithio yn yr Adran Masnach a Diwydiant yn 1979. Ers hynny, mae ei gyrfa wedi cynnwys cyfnodau fel pennaeth Uned Fodurrol yr adran; cyfarwyddwr yr Uned Strategaeth a Chystadleurwydd; pennaeth y tîm a fu'n adolygu strwythur Cownteri Swyddfa'r Post a chyfarwyddwr trwyddedu yn Ofel, y rheoleiddiwr telathrebu cyntaf. Mae Ms Chambers yn was sifil parhaol, sy'n gweithio'n llawn amser i Postcomm.

**8** Penodwyd **Richard Moriarty**, dirprwy brif weithredwr Postcomm, yn gomisiynydd ym mis Mai 2006. Yn was sifil parhaol, sy'n gweithio'n llawn amser i Postcomm, mae'n gyfrifol am waith y prif gyfarwyddiaethau polisi - Cystadleuaeth a Rheoleiddio, Fframwaith Trwyddedu a Gwybodaeth am y Farchnad, a Diogelu Cwsmeriaid. Cyn ymuno â Postcomm, roedd gan Mr Moriarty nifer o swyddi yn Ofgem y rheoleiddiwr nwy a thrydan. Cyn hynny, roedd yn ymgynghorydd economaidd i'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.

Ymddeolodd Robin Aaronson a Janet Lewis-Jones fel comisiynwyr ym mis Hydref 2006.

## Ein pobl

Mae timau Postcomm yn delio â materion polisi sy'n amrywio o fonitro targedau darparu gwasanaeth Post Brenhinol i leihau ôl-troed amgylcheddol Postcomm. Cânt eu harwain gan y swyddogion gweithredol canlynol:

**1 Denise Bagge**, cyfarwyddwr y Rhwydwaith, Gwasanaethau Cyffredinol a Chyfathrebu, yw pennaeth y tîm sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r llywodraeth ar ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post, ac am bolisi ar y gwasanaeth post cyffredinol. Mae hefyd yn gyfrifol am faterion Ewropeaidd a rhyngwladol ac am gyflwyno strategaeth gyfathrebu Postcomm.

**2 Mae Fran Gillon**, cyfarwyddwr Diogelu Cwsmeriaid, yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Post Brenhinol â'i rwymedigaethau i gwsmeriaid, ei allu i ddarparu gwasanaeth cyffredinol dibynadwy, ac ansawdd ei wasanaeth. Mae hefyd yn gyfrifol am ymchwiliadau Postcomm i gwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol.

**3 John Ivers**, cyfarwyddwr Fframwaith Trwyddedu a Gwybodaeth am y Farchnad, yw prif bwynt cyswllt Postcomm i gwsmeriaid post mawr, darpar weithredwyr post a gweithredwyr post newydd. Cyn ymuno â Postcomm ym mis Hydref 2006, Mr Ivers oedd rheolwr gyfarwyddwr DHL Global Mail, y gweithredwr post trwyddedig. Roedd yn gadeirydd ar Gymdeithas Defnyddwyr y Gwasanaethau Post - corff masnach ar gyfer cwsmeriaid post mawr - rhwng 1995 a 2004, ac yn fwy diweddar mae wedi cymryd rhan yn y Fforwm Cystadleuaeth Bost, sef grŵp o weithredwyr post trwyddedig.

**4 Mae Colin Sharples**, cyfarwyddwr Adnoddau Postcomm, yn gyfrifol am faterion gweinyddol, gan gynnwys personél, hyfforddiant, cynllunio cyllid a busnes, rheoli rhaglenni, caffael, TG, gwasanaethau swyddfa ac adeiladau.

**5 William Sprigge** yw Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol Postcomm. Yn flaenorol, bu'n gyfarwyddwr gwasanaethau cyfreithiol Ofgem, yn ymgynghorydd cyfreithiol i Ofgas ac yn gyfreithiwr ymgynghorol yn is-adran ymchwiliadau'r Adran Masnach a Diwydiant.

**6 Mae Peter Swattridge** yn bennaeth ar gyfarwyddiaeth Cystadleuaeth a Rheoleiddio Postcomm. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddylunio a gweithredu rheolaeth prisiau Post Brenhinol a gwneud penderfyniadau polisi economaidd pwysig. Maer' tîm hefyd yn gwerthuso newidiadau i lawer o gynnyrch Post Brenhinol er mwyn sicrhau, ymhlith pethau eraill, y cânt eu gwneud yn deg ac yn dryloyw a'u bod yn arwain at brisiau sy'n adlewyrchu'r gost yn well. Mae Mr Swattridge yn gyfrifydd siartredig, a hyfforddwyd yn Deloitte, ac mae hefyd wedi gweithio i Anderson Consulting, BT a Tiscali.

# Proffil y farchnad

Cafodd marchnad bost y DU ei hagor i gystadleuaeth lawn ym mis Ionawr 2006. Ers hynny, bu amrywiaeth o weithredwyr newydd yn darparu gwasanaethau yn y farchnad yn ogystal â Post Brenhinol. Mae hyn wedi rhoi mwy o bwyslais ar fonitro datblygiadau yn y farchnad er mwyn deall effaith cystadleuaeth ar dueddiadau cyfaint y post, y cyfleoedd neu'r rhwystrau i weithredwyr newydd, a newidiadau o ran gofynion cwsmeriaid.

## Maint, twf a chyfran o'r farchnad

Gwnaeth gweithredwyr post amgen ymdrin â thua 2.4 biliwn o eitemau o dan gytundebau mynediad â Post Brenhinol, sef dwbl yr hyn yr ymdriniwyd ag ef yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, Post Brenhinol yw'r prif ddarparwr gwasanaeth yn y farchnad o hyd, wrth iddo barhau i ddosbarthu mwy na 99 y cant o'r holl bost.

Bu gostyngiad o 1.1 y cant mewn cyfeintiau'r post yn 2005/06 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'r tueddiad hwn wedi parhau yn 2006/07, gyda chyfeintiau Post Brenhinol ar gyfer y cyfnod Ebrill 2006 - Mawrth 2007 yn gostwng 1.6 y cant, i 20.4 biliwn o eitemau.

Mae busnesau yn anfon 87 y cant o bost yn y DU, ac anfonir y gyfran fwyaf - 60 y cant o'r holl bost - gan fusnesau i ddefnyddwyr. Mae'r farchnad bost yn y DU yn ddwys iawn, gyda'r 10, 20 a 500 o fusnesau mwyaf sy'n defnyddio'r post yn y DU yn cyfrif am tua 18, 28 a 50 y cant o gyfeintiau post, yn y drefn honno.<sup>1</sup>

## Gweithredwyr a ymunodd â'r farchnad hyd yma


Ar ddiwedd mis Mawrth 2007 roedd 17 o weithredwyr â thrwyddedau post hir dymor, gan gynnwys Post Brenhinol. Mae tri phrif fodel busnes y mae'r darparwyr newydd hyn yn eu dilyn:

- Mynediad i ddosbarthu'r post yn y pen draw
- Gwasanaethau cyfuno
- Gwasanaethau pen i'r pen.

Heb os, y maes mwyaf datblygedig o ran cystadleuaeth yw mynediad i ddosbarthu'r post yn y pen draw. Mae nifer o'r gweithredwyr amgen wedi llofnodi cytundebau gyda Post Brenhinol i gael mynediad i'w rwydwaith dosbarthu mewn canolfannau didoli ac ail-ddosbarthu post - gweler y diagram ar y dudalen gyferbyn. Yn ogystal â gweithredwyr trwyddedig, mae gan 10 - 15 o gwsmeriaid mawr gytundebau mynediad uniongyrchol ac yn defnyddio rhwydwaith uniongyrchol Post Brenhinol i ddosbarthu'r post ar ddiwedd y daith.

---

<sup>1</sup> Ffynhonnell: Papur ymchwil i UBS Investment *Will liberalisation end 'monopoly' returns?* 21 Gorffennaf 2006




### Cyfeintiau pen i'r pen

Hyd yn hyn, bu rhwydweithiau pen i'r pen yn araf wrth ddatblygu. Yn 2005/06 cludodd gweithredwyr amgen tua 39 miliwn o eitemau yn y DU. Y ffigurau ar gyfer tri chwarter cyntaf 2006/07 yw 26.7 miliwn o eitemau - gostyngiad o tua 10 y cant o gymharu â'r cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol.

### Cyfeintiau mynediad a chyfuno

Mae cyfeintiau mynediad, ar gyfer mynediad uniongyrchol i gwsmeriaid a mynediad gweithredwyr, wedi cynyddu'n raddol ers i'r farchnad agor. Yn 2006/07 roedd eitemau mynediad yr ymdriniwyd â hwy gan Post Brenhinol yn cyfrif am tua 12 y cant o gyfanswm cyfaint gweithredol y cwmni. Mae'r graff yn dangos cyfeintiau mynediad ar gyfer y flwyddyn 2006/07 o gymharu â 2005/06.

Cyfeintiau mynediad 2005/06 a 2006/07 (miliynau)



Ar hyn o bryd mae mynediad uniongyrchol cwsmeriaid yn cyfrif am tua hanner cyfanswm y cyfeintiau mynediad.

Gyda thwf e-bost a chyfryngau electronig eraill, pa fath o wasanaethau post y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol? Eleni, dechreuwyd casglu gwybodaeth i'n helpu i lywio ein strategaeth ar gyfer y dyfodol.

# Diogelu'r gwasanaeth cyffredinol a buddiannau cwsmeriaid

## Adolygiad o'r Strategaeth

Mae rheolaeth prisiau bresennol Post Brenhinol yn rhedeg o 2006-2010. Ym mis Awst 2006, dechreuom ofyn i randdeiliaid am eu barn ar ddyfodol gwasanaethau post, er mwyn helpu Postcomm i lywio'i strategaeth rheoleiddio yn ystod y cyfnod sy'n arwain at 2010 a thu hwnt.

Rhan allweddol o waith Postcomm yw diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol 'un pris ar gyfer pob man'. Mae cystadleuaeth eisoes wedi dechrau rhoi dewis a gwasanaethau arloesol i ddefnyddwyr post gan weithredwyr newydd, ac mae Post Brenhinol wedi gwella ansawdd ei wasanaeth sy'n well nag erioed.

Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar o ran y gystadleuaeth bost, ac mae heriau newydd i'w hwynebu yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r farchnad ymateb i'r bygythiad cynyddol gan gyfryngau electronig a ffurfiau eraill o gyfathrebu. Mae ein Hadolygiad o'r Strategaeth yn ceisio barn a fydd yn ein helpu i lywio dyfodol y broses o reoleiddio post yng nghyd-destun y farchnad gyfnewidiol hon.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn cyfres o gwestiynau eang eu cwmpas. Dyma rai enghreifftiau:

*A oes gennych fwy o ddiddordeb mewn prisiau is neu well ansawdd gwasanaeth, o gofio bod rhaid dod i gyfaddawd rhwng y ddau yn aml? Targed ansawdd gwasanaeth presennol Post Brenhinol yw bod 95 y cant o'r post dosbarth cyntaf yn cyrraedd y diwrnod canlynol.*

- A fyddech chi'n talu mwy i sicrhau bron i 100 y cant o'r post dosbarth cyntaf yn cyrraedd y diwrnod canlynol?
- A fyddech chi'n derbyn llai na'r targed o 95 y cant pe bai'r prisiau'n cael eu gostwng?
- A fyddech am weld prisiau is ar gyfer dosbarthu post mewn ardaloedd trefol ar draul codi'r prisiau ar gyfer dosbarthu post mewn ardaloedd gwledig?

*Pa wasanaethau post yr ydych yn debygol o fod am eu cael yn y dyfodol?*

- Post wedi'i ddsbarthu chwe diwrnod yr wythnos?
- Sicrwydd y bydd rhai eitemau post yn cael eu dosbarthu ar ddiwrnod penodol?
- Llai o flychau post ond amseroedd casglu olaf hwyrach?
- Mwy o bost yn cael ei ddsbarthu ar yr un diwrnod?
- Mwy o wasanaethau fel dilyn ac olrhain?
- Mwy o wasanaethau diogelwch uchel?

*Yn eich barn chi, sut y bydd y ffordd rydych yn defnyddio'r post yn newid?*

- A fyddwch yn postio mwy neu lai o lythyrau personol? (Ar hyn o bryd mae post busnes yn cyfrif am bron 90 y cant o'r holl bost)
- A ddylai'r gwasanaeth cyffredinol 'un pris i bob man' fod yn berthnasol i bost personol yn unig?
- A fyddwch yn defnyddio gwasanaeth post yn amlach ar gyfer archebu nwyddau ar-lein (er enghraifft gan Amazon neu eBay) nag ar gyfer gohebiaeth bersonol?
- A fyddwch am gael eich cyfriflenni banc wedi'u postio atoch - neu wedi'u hanfon yn electronig?

Dilynwyd y ddogfen ymgynghori gan seminar, gweithdai a chyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda phrif rhanddeiliaid ar draws y DU. Rydym yn disgwyl cyhoeddi dogfen yn nodi'r farn a fynegwyd yn ystod haf 2007.

### **Gwasanaeth cyffredinol**

Mae proffidioldeb Post Brenhinol yn golygu bod y gwasanaeth post cyffredinol yn fwy diogel nag yr oedd cyn y cyflwynwyd y cystadleuaeth pan roedd y cwmni yn colli £1 filiwn bob dydd. Mae'r gostyngiad diweddar ym mhroffidioldeb Post Brenhinol yn fater sy'n peri pryder, ac eir i'r afael ag ef drwy ail-archwilio nodweddion rheolaeth prisiau 2006-2010, ac yn y tymor hwy, drwy gynnal Adolygiad o Strategaeth Postcomm. Mae'r materion eraill a nodwyd yn y bennod hon yn cyfrannu at wella ansawdd y gwasanaeth cyffredinol.

### **Iawndal cymhleth**

Ar hyn o bryd, mae gan Post Brenhinol bedwar cynllun iawndal ar gyfer colled a difrod y cred llawer o bobl eu bod yn gymhleth. Hoffem weld un cynllun colled a difrod sy'n cael ei reoli gan fframwaith clir a syml o egwyddorion.

Ym mis Tachwedd 2006, gwnaethom ofyn am farn ar hyn, a pha un a ddylai Postcomm barhau i orfodi Post Brenhinol i dalu iawndal i gwsmeriaid swmp bost oherwydd oedi wrth ddsbarthu, pan allai cwsmeriaid bellach fynd â'i busnes i rywle mewn marchnad a ryddfrydolwyd.

Gofynnodd dogfen ymgynghori Postcomm gwestiynau i gwsmeriaid post am nifer o faterion, yn cynnwys:

- Sut i ddatrys y gwahaniaeth rhwng iawndal am bost sy'n hwyr a phost a gollwyd neu a ddifrodwyd
- Defnydd Post Brenhinol o stampiau fel iawndal
- Tystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cais am iawndal
- Cymhwysedd i gael iawndal i ddefnyddwyr Gwasanaeth Eitemau i'r Deillion Post Brenhinol

- Pa un a ddylid parhau â'r cynllun iawndal gorfodol i gwsmeriaid swmp bost, a orfodir gan Postcomm.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

### **Wedi colli'r post?**

Ym mis Hydref 2006, lansiodd Postcomm ymgynghoriad ar amseroedd casglu a dosbarthu Post Brenhinol. Aeth ar drywydd cwynion bod Post Brenhinol yn symud ei amseroedd casglu olaf ymlaen ar gyfer rhai blychau post, yn enwedig mewn ardaloedd gweledig, i amseroedd mor gynnar â 9am. Mewn rhai achosion, roedd y post dyddiol yn cael ei ddosbarthu ar ôl casgliad olaf y dydd.

O dan ei rwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, rhaid i Post Brenhinol wneud un casgliad o leiaf o bob blwch post ac un dosbarthiad i bob cartref neu fusnes bob diwrnod gwaith. Fodd bynnag, nid yw trwydded Post Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol iddo nodi pryd y caiff y post ei gasglu a'i ddosbarthu.

Drwy wneud casgliadau cynt a dosbarthu post yn hwyrach yn y dydd, mae Post Brenhinol yn rhoi mwy o amser iddo'i hun i ddosbarthu post dosbarth cyntaf y diwrnod canlynol. Gallai hyn helpu'r cwmni i fodloni ei dargedau ansawdd gwasanaeth, ond efallai na fydd yn diwallu anghenion rhesymol cwsmeriaid.

Mae Postcomm am wybod pa broblemau y mae casgliadau cynnar a dosbarthiadau hwyr wedi'u hachosi. Bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn cynnwys data costau gan Post Brenhinol ac ymchwil y farchnad. Bydd y canlyniadau yn ein helpu i benderfynu a oes angen ymagwedd fwy ffurfiol o ran amseroedd casglu a dosbarthu.

### **Special Delivery Next Day**

Ym mis Medi 2006, cyhoeddodd Postcomm ddogfen ymgynghori ar gais Post Brenhinol i gyflwyno gwasanaeth Special Delivery dwy haen yn 2007. Bwriad y cwmni oedd eithrio eitemau gwerthfawr fel arian parod a gemwaith o'r gwasanaeth diwrnod canlynol presennol, a chyflwyno gwasanaeth newydd (a drutach) ar gyfer eitemau gwerth uchel ar yr un pryd, gyda iawndal o hyd at £2,500 ar gyfer colled neu ddifrod.

Mae'r tabl yn crynhoi'r prif newidiadau a gynigiwyd gan Post Brenhinol.

|  |                           |                           |                             |
|--|---------------------------|---------------------------|-----------------------------|
| Nodwedd y cynnyrch   | Gwasanaeth Presennol      | Gwasanaeth Arfaethedig    | Gwasanaeth Arfaethedig      |
|  | Special Delivery Next Day | Special Delivery Next Day | Special Delivery High Value |
| Gwasanaeth dosbarthu diwrnod canlynol gwarantedig                | Erbyn 1pm                 | Erbyn 1pm                 | Erbyn 3pm                   |
| Lefel safonol o iawndal ar gyfer colled neu ddifrod              | £500                      | £500                      | £2,500                      |
| lawndal ychwanegol ar gyfer colled neu ddifrod                   | Hyd at £2,500             | DD/B                      | DD/B                        |
| lawndal ar gyfer colled neu ddifrod a wneir i eitemau gwerthfawr | le                        | Na                        | le                          |

Mae'n ofynnol i Post Brenhinol ddarparu gwasanaeth yswiriadwy ar gyfer eitemau gwerth uchel fel rhan o'r gwasanaeth post cyffredinol.

Disgwylir penderfyniad ar ddechrau haf 2007.

### **Cosbau ariannol**

Pennodd Postcomm ddwy gosb ariannol ar Post Brenhinol oherwydd gwasanaeth cwsmeriaid gwael a hynny yn groes i'w drwydded. Roedd y cosbau ar gyfer:

- Perfformiad gwael mewn ardaloedd cod post penodol yn Llundain
- Methu â diogelu post a oedd o dan ei ofal.

### **Codau post**

Ym mis Ebrill 2006, cadarnhaodd Postcomm bod Post Brenhinol wedi cael cosb ariannol o £271,000 ar ôl i'r cwmni fynd yn groes i'w drwydded yn 2004/05 yn dilyn perfformiad dosbarthu gwael yn ardaloedd cod post SE, E a WC yn Llundain.

### **Methiant i ddiogelu post**

Ym mis Awst 2006, cadarnhaodd Postcomm bod Post Brenhinol wedi cael cosb o £9.62 miliwn am fethu â diogelu post a oedd o dan ei ofal yn briodol. Pennwyd

y gosb yn dilyn adolygiad o weithdrefnau honedig Post Brenhinol mewn perthynas â chadw'r post rhag amhariad.

Y gwendid mwyaf arwyddocaol oedd dulliau rheoli gwael ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff nad oeddent ar gcontract (a gyflogir drwy asiantaethau). Yn ogystal, ystyriwyd nad oedd y fframwaith a'r systemau gwybodaeth yr oedd Post Brenhinol wedi'u rhoi ar waith i atal y post rhag cael ei golli, ei ddwyn neu ei ddifrodi, yn gweithredu'n effeithiol. Roedd y gwendidau hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r cwmni i ddiogelu post cwsmeriaid.

Cynigiwyd y gosb am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2006, pan gyhoeddodd Postcomm ddogfen ymgynghori a oedd yn cynnig cosb ariannol o £11.38 miliwn. Ar ôl ystyried sylwadau gan Post Brenhinol ac ymatebwyr eraill, gostyngwyd y gosb i £9.62 miliwn.

Apeliodd Post Brenhinol i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad Postcomm. Ym mis Mawrth 2007, cadarnhaodd yr Uchel Lys y gosb ariannol o £9.62 miliwn. Ni wnaeth Post Brenhinol apelio yn erbyn canfyddiad Postcomm iddo dorri gofynion ei drwydded i gadw post yn ddiogel, na bod yr achos o dorri'r drwydded yn ddifrifol; dim ond yn erbyn swm y gosb ariannol y gwnaethpwyd apêl.

Dywedodd Sarah Chambers, prif weithredwr Postcomm: "Credwn fod y ddirwy o £9.62 miliwn yn gosb gymesur mewn perthynas â'r diffygion hyn, ac rydym yn falch bod yr Uchel Lys wedi cadarnhau'r gosb, ac wedi dyfarnu costau i Postcomm. Yn ystod 2004/05, amcangyfrifodd Post Brenhinol fod tua 14.6 miliwn o lythyrau, pcedi a pharseli a oedd o dan ei ofal wedi cael eu colli, eu dwyn, eu difrodi neu bod rhywrai wedi amharu arnynt."

Ers hynny, gwnaeth Post Brenhinol gais i fynd â'i achos i'r Llys Apêl.

Cafodd rhan o'r farchnad swmp bost ei rhyddfrydoli yn 2003, ond ni chyflwynwyd cystadleuaeth lawn i'r gwasanaethau post tan 1 Ionawr 2006. Mae eisoes yn dwyn buddiannau cynnar i'r farchnad post busnes.

## Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy

Dengys ymchwil y farchnad a gomisiynwyd gan Postcomm fod llawer o gwsmeriaid busnes yn mwynhau prisiau is, gwell dewis a gwell ansawdd gwasanaeth gan Post Brenhinol a gweithredwyr eraill yn y farchnad a ryddfrydolwyd, er bod llawer o waith i'w wneud eto er mwyn iddo wireddu ei botensial llawn.

Datgelodd *Arolwg Cwsmeriaid Busnes* Postcomm a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006 y canlynol:

- Dywedodd dau ddeg y cant o ymatebwyr fod eu prisiau postio wedi gostwng yn sylweddol
- Dywedodd tri deg wyth y cant bod ganddynt ddewis gwell o wasanaethau
- Roedd tri deg pedwar y cant ohonynt o'r farn fod ansawdd gwasanaeth Post Brenhinol wedi gwella hefyd.

Er mai dyddiau cynnar ydoedd i'r farchnad bost a ryddfrydolwyd, a bod Post Brenhinol wedi cadw mwy na 96 y cant o'r farchnad llythyrau cyfeiriedig, dangosodd yr arolwg fod cystadleuwyr Post Brenhinol yn ehangu eu cronfa gwsmeriaid.

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, newidiodd ddwywaith gymaint o fusnesau i ddefnyddio tri phrif gystadleuwr Post Brenhinol, ac roedd nifer y busnesau a oedd yn defnyddio cystadleuwyr eraill bedair gwaith yn uwch.

Nododd dogfen ar wahân a gyhoeddwyd gan Postcomm ar yr un pryd, sef *Adolygiad o'r Farchnad Gystadleuol*, bod cynnydd sylweddol mewn dosbarthiadau mynediad - lle mae Post Brenhinol yn codi ffi ar ei gystadleuwyr am ddsbarthu eu llythyrau dros y 'filltir olaf'. Dangosodd yr ystadegau y canlynol:

- Yn y flwyddyn ariannol hyd at fis Ebrill 2006, gwnaeth Post Brenhinol 1.2 biliwn o ddsbarthiadau mynediad, o gymharu ag 87 miliwn yn ystod y flwyddyn flaenorol
- Yn ystod y pum mis hyd at fis Awst 2006, roedd cyfeintiau mynediad yn cyfrif am 10.5 y cant o gyfanswm cyfeintiau Post Brenhinol. (Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2007 parhaodd cyfeintiau mynediad i godi ac roeddent yn cyfrif am tua 12 y cant o gyfeintiau gweithredol Post Brenhinol).

### **Ailgyfeirio mewn marchnad a ryddfrydolwyd**

Bob blwyddyn, mae tua 1.3 miliwn o gartrefi a busnesau yn defnyddio gwasanaeth ailgyfeirio Post Brenhinol, ac mae tua 800,000 o eitemau o bost yn cael eu hailgyfeirio ar lyfrau'r cwmni ar unrhyw un adeg.

Yn y farchnad bost sydd wedi'i rhyddfrydoli'n llwyr, lle y gall cystadleuwyr Post Brenhinol gynnig eu gwasanaethau casglu a dosbarthu eu hunain, mae angen ehangu trefniadau ailgyfeirio er mwyn galluogi'r cystadleuwyr hynny i ailgyfeirio post ac, ym mis Awst 2006, dechreuodd Postcomm ymgynghori ar sut y gellid cyflawni hyn.

Mae ymgynghoriad Postcomm, ymhlith pethau eraill, yn cynnig bod Post Brenhinol yn rhoi data ailgyfeirio i weithredwyr eraill ar delerau teg a rhesymol, ac mae'n awgrymu trefniadau rhannu referniw.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn mynd rhagddo.

### **Mwy o hyblygrwydd masnachol**

Mae trwydded Post Brenhinol yn cyfyngu ar rai o'i weithgareddau er mwyn sicrhau nad yw'n defnyddio'i faint a'i raddfa i roi gweithredwyr eraill o dan anfantais. Fodd bynnag, os cred Post Brenhinol ei fod wedi'i gyfyngu'n ormodol gan un o amodau'r drwydded, gall wneud cais i Postcomm i'w ddiwygio.

Ym mis Ionawr 2007, ymgynghorodd Postcomm ar ddau gais o'r fath.

Yn y cais cyntaf, roedd Post Brenhinol am wneud rhai newidiadau i'r gwasanaeth Sameday - gwasanaeth cludwr sy'n casglu eitemau brys gan gwsmeriaid ac yn eu dosbarthu yr un diwrnod i gyfeiriadau penodedig bron unrhyw le yn y DU.

O dan Amod 7 o'i drwydded, rhaid i Post Brenhinol hysbysu Postcomm a chyhoeddi gwybodaeth dri mis ymlaen llaw am unrhyw newidiadau y mae am eu gwneud i'r gwasanaeth Sameday. Dadleuodd Post Brenhinol fod y gwasanaeth Sameday yn gweithredu yn y farchnad cludwyr ddiwrwydded, sy'n symud yn gyflym ac sy'n gystadleuol iawn ac felly dylid ei eithrio o'r gofynion hyn.

Ar ôl ymgynghori, penderfynwyd cymeradwyo cais Post Brenhinol.

Roedd yr ail gais yn ymwneud â'r broses hysbysu am dreialu cynnyrch. Mae trwydded Post Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni roi tri mis o rybudd o ran unrhyw gynnyrch neu wasanaethau newydd a gaiff eu treialu. Dadleuodd Post Brenhinol god y cyfnod hwn yn rhy hir mewn marchnad a ryddfrydolwyd.

Dechreuodd Postcomm ymgynghori ar y posibilrwydd o bennu cyfnod hysbysu byrrach o un mis o ran treialu cynnyrch. Byddai hyn o fudd i ddefnyddwyr ac yn annog arloesedd, ond ni fyddai'n rhwystro cystadleuaeth. Pe bai'r treialon yn arwain at gyflwyno cynnyrch newydd parhaol, byddai'r cynnyrch hwn yn destun hysbysiad tri mis.

Mae'r ymgynghoriad hwn bron â dod i ben.

## **Proses dendro gystadleuol**

Mae Post Brenhinol yn parhau i fod â chryn afael ar y farchnad felly mae angen pennu rheolau i sicrhau nad yw'n defnyddio'i rym - yn anfwriadol o bosibl - i ennill neu gadw contractau ar draul cystadleuwyr llai o faint.

Ym mis Mawrth 2007 cyhoeddodd Postcomm gyfarwyddyd i'r diwydiant post ar gyfranogiad Post Brenhinol mewn trefniadau tendro cystadleuol.

Erbyn hyn, mae prosesau tendro cystadleuol - nad oeddent yn bodoli pan oedd gan Post Brenhinol fonopoli - yn arfer a dderbynnir yn y farchnad a ryddfrydolwyd. Esboniodd y gyfarwyddyd fod trwydded Post Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi ei brisiau ar ôl iddo ennill contract, ac ymatal rhag defnyddio arferion gwrth-gystadleuol.

Y nod yw sicrhau bod pawb yn y farchnad yn ymwybodol o'r rheolau - ac egluro pryd a sut y dylid cwyno i Postcomm os ydynt o'r farn y cafodd y rheolau eu torri.

## **Mantais fasnachol annheg**

Ym mis Medi, rhoddodd Postcomm gosb o £1 filiwn i Post Brenhinol am fethu â chymryd camau digonol i sicrhau nad oedd yn cael mantais fasnachol annheg dros ei gystadleuwyr yn y farchnad mynediad.

Lleihawyd y gosb o'r £2.16 miliwn a gynigiwyd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2006, ar ôl i Postcomm ystyried sylwadau gan Post Brenhinol a phartïon eraill â diddordeb. Penderfynodd Post Brenhinol apelio i'r Uchel Lys.

## **Prisiau parthol**

Ar 20 Chwefror, gwnaeth Post Brenhinol gais i gynyddu'r prisiau y mae'n eu codi ar rai dosbarthiadau post busnes yn Llundain Fwyaf a lleoliadau gwledig, a chodi llai ym mhob man arall.

Mae cais Post Brenhinol mewn perthynas â phrisiau 'parthol', fel y'u gelwir, yn cwmpasu cynnyrch a gynhyrchodd £1.4 biliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol - tua chwarter cyfanswm refeniw Post Brenhinol a reoleiddiwyd. Nid yw'n effeithio ar brisiau stampiau na chynnyrch Post Brenhinol o fewn y gwasanaeth post cyffredinol.

Ni ellir gweithredu newidiadau o'r fath heb gymeradwyaeth Postcomm ymlaen llaw, ac, ar 2 Ebrill, gwnaethom ysgrifennu at gwsmeriaid a gweithredwyr post i ofyn am eu barn. Cyhoeddwyd y llythyr ar wefan Postcomm hefyd.

Ar hyn o bryd mae Post Brenhinol yn codi'r un prisiau am ddsbarthu bron pob eitem o swmp bost heb wahaniaethu'n ddaearyddol, ond dywed y byddai prisiau parthol yn ei helpu i alinio'i brisiau yn agosach â'i gostau.

Yn ei gais, rhannodd Post Brenhinol ei 27 miliwn o fannau dosbarthu ledled y DU yn bum parth, yn seiliedig ar ddwysedd poblogaeth y manau dosbarthu yn bennaf. Mae'r parthau a'r cynnydd, neu'r gostyngiad cymharol mewn prisiau a gynigiwyd gan Post Brenhinol fel a ganlyn:

- Llundain Fwyaf + 2.5 y cant
- Ardaloedd busnes - 4.9 y cant
- Ardaloedd â phoblogaeth uchel -2.0 y cant
- Poblogaeth ganolig -1.7 y cant
- Poblogaeth isel +4.8 y cant.

Os caiff ganiatâd, mae Post Brenhinol am gyflwyno'r strwythur prisio newydd ar gyfer y cynnyrch post busnes canlynol:

- Mailsort 120 – dosbarth cyntaf, ail ddsbarth a thrydydd dosbarth, OCR a CBC
- Mailsort 700 – dosbarth cyntaf, ail ddsbarth a thrydydd dosbarth
- Mailsort 1400 – trydydd dosbarth
- Presstream – dosbarth cyntaf ac ail ddsbarth
- Walksort – dosbarth cyntaf ac ail ddsbarth.

O dan drwydded Post Brenhinol, mae gan Postcomm hyd at naw mis i wneud penderfyniad o ran y cais.

## **Adolygu prisiau mynediad**

Ym mis Mawrth 2007 dechreuodd Postcomm adolygu nodweddion rheolaeth prisiau ac ansawdd gwasanaeth 2006-2010 Post Brenhinol.

Gwnaed un adolygiad yn dilyn cais gan Post Brenhinol, TNT Post UK a UK Mail i newid y maint rhwng y pris y mae Post Brenhinol yn ei godi ar ei gwsmeriaid i ddsbarthu eu swmp bost a'r swm y mae Post Brenhinol yn ei godi ar weithredwyr eraill i gael mynediad i'w rwydwaith ac i ddsbarthu eu post dros 'y filltir olaf' - ei gostau 'mynediad'.

Mae Post Brenhinol am ostwng y maint rhwng ei brisiau mynediad a'r prisiau manwerthu, tra bod TNT a UK Mail am i'r maint gynyddu. Mae'r maint wedi 'rhewi' yn rheolaeth prisiau 2006-2010 - ond mae'n destun adolygiad yn 2008.

Yn eu cais, dywedodd TNT a UK Mail wrth Postcomm y credant nad yw'r maint presennol yn cynnig digon o gwmpas iddynt wneud elw hirdymor ar eu buddsoddiad ac felly nad yw'n hyrwyddo cystadleuaeth. Mae Post Brenhinol yn dadlau bod y rheolaeth rheoleiddio bresennol ar brisiau mynediad yn ei rwystro rhag trosglwyddo unrhyw gynilion a wna o'i weithgareddau dosbarthu post yn y pen draw i'w gwsmeriaid, heb drosglwyddo'r cynilion hynny i'w gystadleuwyr hefyd drwy brisiau mynediad is.

Ar wahân, mae Post Brenhinol wedi gofyn i Postcomm wneud newidiadau i'r rheolaeth prisiau er mwyn caniatáu iddo godi prisiau unigol yn fwy nag a ganiateir ar hyn o bryd. Mae'n honni bod angen yr hyblygrwydd ychwanegol hyn arno i'w alluogi i alinio'i brisiau yn agosach â'i gostau.

Disgwylir cwblhau'r adolygiadau yn ystod hydref 2007.

Mae Post Brenhinol hefyd wedi gofyn i Postcomm adolygu darpariaethau ei reolaeth prisiau a'i gynllun iawndal swmp bost sy'n nodi ei fod yn destun cymhellion ariannol i gynnal gwasanaeth o safon uchel. Mae Post Brenhinol yn pryderu am fethiant posibl i sicrhau ansawdd gwasanaeth o ganlyniad i weithredu diwydiannol. Mae'n debygol y penderfynir ar hyn yn haf 2007.

## **TAW: rhywfaint o gynnydd i weithredwyr**

Croesawodd Postcomm y cyhoeddiad ym mis Mawrth 2007 ynglŷn â math newydd o drefniant mynediad a gynlluniwyd i ganiatáu i sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag TAW - yn cynnwys sefydliadau ariannol a rhai elusennau - fanteisio ar y farchnad sydd newydd ei rhyddfrydoli yn well.

Mae Post Brenhinol a gweithredwyr mynediad eraill wedi llunio contract newydd a ddylai alluogi cwsmeriaid nad ydynt yn talu TAW i beidio â thalu TAW ar daliadau mynediad. Mae'r contract newydd yn gwneud defnydd o gytundeb asiantaeth rhwng Post Brenhinol a'r gweithredwr mynediad.

Pan fydd y strwythur wedi'i sefydlu'n gywir, ni fydd yn ofynnol i weithredwyr post sy'n defnyddio Post Brenhinol i ddsbarthu post dros 'y filltir olaf' godi TAW ar gost y dosbarthiad cyfan. Yn lle hynny, dim ond ar elfen 'gychwynnol' y trefniadau hyn y codir TAW - hynny yw, ar y gwasanaethau casglu a didoli a ddarperir gan gystadleuwyr Post Brenhinol.

Darperir yr elfen 'yn y pen draw' - sef dosbarthu - ar ran cystadleuwyr gan Post Brenhinol, sydd wedi'i eithrio rhag codi TAW ar hyn o bryd.

Er ein bod yn croesawu'r datblygiad hwn, rydym yn parhau i fod yn bryderus na roddir 'chwarae teg' i weithredwyr post trwyddedig. Mae Post Brenhinol wedi'i eithrio rhag codi TAW, tra bod rhaid i weithredwyr eraill godi'r 17.5 y cant llawn, gan ei gwneud yn anoddach iddynt gystadlu o ran prisiau am fusnes cwsmeriaid nad ydynt yn talu TAW. Mae hwn yn rhwystr sylweddol i weithredwyr newydd o ran cael mynediad i'r farchnad bost, yn enwedig gweithredwyr pen i'r pen, sy'n dosbarthu eu post eu hunain, ac mae eu rhwymedigaeth TAW yn aros yn ddigyfnewid o dan y trefniadau hyn.

Hoffem weld cyfradd ostyngedig, unffurf o TAW sy'n gymwys i bob gweithredwr post, yn cynnwys Post Brenhinol. Er enghraifft, byddai cyfradd o 5 y cant sy'n gymwys i bawb yn sicrhau chwarae teg heb godi'r prisiau i gwsmeriaid yn sylweddol.

Fodd bynnag, nid yw hwn yn fater y gall Postcomm ei ddatrys ei hun. Mae'r polisi TAW yn fater i Drysorlys EM. Rhaid i lywodraeth y DU weithredu o fewn y fframwaith TAW cyffredinol a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, a fynegodd ei bryder yn ddiweddar ynglŷn ag eithrio Post Brenhinol rhag TAW. Byddai cynnig diwygio'r Gyfarwyddeb TAW bresennol yn sicrhau cyfradd unffurf, is o TAW a fyddai'n gymwys i bob gweithredwr post trwyddedig - rhywbeth y byddem yn ei groesawu.

Nid yw Postcomm yn rheoleiddio swyddfeydd post Post Brenhinol, ond mae'n monitro datblygiadau yn y rhwydwaith, yn cynnal ymchwil ac yn rhoi cyngor i'r llywodraeth ar ffurf adroddiad blynyddol a gyhoeddir.

## Rhwydwaith swyddfa'r post

Roedd adroddiad rhwydwaith swyddfa'r post 2006 Postcomm, o'r enw *Post Offices at the Crossroads*, yn annog y llywodraeth i wneud y penderfyniadau anodd a hirddisgwyliedig sydd eu hangen er mwyn cynllunio dyfodol y rhwydwaith.

Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan Postcomm, er gwaethaf cynnydd mewn cyflog gros, fod y rhan fwyaf o is-bostfeistri yn ddigalon o ran rhagolygon y dyfodol, gyda 72 y cant yn nodi nad oeddent yn teimlo'n hyderus am y dyfodol.

Dyweddodd yr adroddiad fod angen i'r llywodraeth roi cyfeiriad i swyddfeydd post ar frys er mwyn diogelu eu dyfodol. Nid oedd yn bosibl cadw pethau fel ag y maent oherwydd:

- Gwnaeth y rhwydwaith golled o £111 miliwn y flwyddyn flaenorol, cyn i swyddfeydd post gwledig gael cymhorthdal o £150 miliwn gan y llywodraeth
- Mae adrannau'r Llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau wedi tynnu eu gwasanaeth yn ôl o'r swyddfeydd post. Roedd refereniw Swyddfa'r Post Cyf o drafodion y llywodraeth wedi gostwng £168 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Prin oedd y busnes a gynhyrchwyd gan gynnyrch newydd fel bondiau buddsoddi, benthyciadau personol a chardiau credyd - llai nag 1 y cant o gyfanswm y gwerthiannau mewn ardaloedd trefol
- O blith yr 8,000 o swyddfeydd post gwledig, dim ond 1,500 oedd yn broffidiol. Gwnaeth y 6,500 o ganghennau eraill golled.

Ym mis Rhagfyr 2006, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant ddogfen ymgynghori ar ddyfodol rhwydwaith swyddfa'r post. Ymhlith pethau eraill, roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion i gau hyd at 2,500 o swyddfeydd post, buddsoddi hyd at £1.7 biliwn yn y rhwydwaith dros bum mlynedd - yn amodol ar gymeradwyo cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd - a moderneiddio ac ailstrwythuro'r rhwydwaith er mwyn datblygu cyfleoedd busnes newydd.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth 2007. Y cam nesaf oedd ymateb y llywodraeth, cyn bod Swyddfa'r Post Cyf yn ymgynghori'n lleol ar gau swyddfeydd post mewn cymysgedd o safleoedd trefol a gwledig yn ystod haf 2007.

Croesawodd Postcomm y ddogfen fel cam cyntaf defnyddiol tuag at greu rhwydwaith cynaliadwy, ond roedd yn pryderu am y canlynol o ran y cynllun gweithredu arfaethedig:

- Dylai'r cyfnod ymgynghori lleol ar gyfer cau pob swyddfa post fod yn 12 wythnos, nid y 6 wythnos a awgrymwyd, er mwyn sicrhau bod digon o amser i gael cyfraniad a thrafodaethau lleol
- Mae'r meini prawf mynediad yn eang iawn, a chan na wnaeth yr Adran Masnach a Diwydiant ymgynghori â Postcomm, mae angen i ni ystyried y cysondeb rhwng meini prawf mynediad arfaethedig yr Adran Masnach a Diwydiant ar gyfer swyddfeydd post a'r rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan drwydded Post Brenhinol, yn ogystal ag archwilio unrhyw effaith ar y gwasanaeth post cyffredinol
- Ymddengys yr amserlen gyffredinol o 18 mis yn uchelgeisiol os bwriedir ystyried pryderon ac amgylchiadau lleol, yn enwedig o ystyried y bydd Golwg ar Bost yn dirwyn i ben yn ystod y broses o weithredu'r rhaglen
- Pan fydd y rhaglen wedi'i chwblhau mae'n hanfodol bod gan swyddfeydd post yr amrywiaeth gywir o wasanaethau a chynnyrch er mwyn sicrhau dyfodol iddynt yn yr hirdymor.

Fodd bynnag, gwnaethom groesawu'r gydnabyddiaeth o rôl gymdeithasol ac economaidd swyddfeydd post yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Postcomm ymchwil annibynnol ac mae wedi parhau â'i waith o gyfarfod â rhanddeiliaid allweddol a gwrando ar eu barn - yn cynnwys postfeistri, cynrychiolwyr staff swyddfeydd post, Swyddfa'r Post Cyf, adrannau'r llywodraeth, Pwyllgor y Cabinet ar swyddfeydd post, awdurdodau lleol, Golwg ar Bost a chwsmeriaid.

Mae Postcomm wrthi'n gwneud gwaith ymchwil i fynediad i wasanaethau post mewn swyddfeydd post a blychau post. Gobeithiwn y gall y llywodraeth ddefnyddio'r casgliadau i lywio unrhyw waith i ailstrwythuro rhwydwaith swyddfa'r post. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth i ddiweddarau ein cyhoeddiad a lunnir bob dwy flynedd ar rwydweithiau dramor.

Yn y farchnad bost a ryddfrydolwyd, rydym yn gweithredu rhaglen flwyddyn o hyd o ymweliadau a chysylltiadau â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau bob amser yn ystyried yr adborth a gawn gan bartïon â diddordeb - naill ai fel rhan o'n prosesau ymgynghori neu yn dilyn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

# Meithrin cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid yn cynnwys gweithredwyr post, cwsmeriaid post, cyflenwyr diwydiant, mentrau bach a chanolig, cymdeithasau masnach ac undebau llafur, yn ogystal â chynrychiolwyr cwsmeriaid domestig a grwpiau diamddiffyn, is-bostfeistri, adrannau'r llywodraeth, grwpiau Seneddol, Aelodau Seneddol, gweinyddiaethau datganoledig a Golwg ar Bost, sef y corff defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Postcomm gyfarfodydd wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid yn Ne-Ddwyrain Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gogledd Lloegr, Cymru, yr Alban a Dwyrain Lloegr. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau â gweithredwyr a defnyddwyr post mawr a chyswllt â chymdeithasau masnach a grwpiau defnyddwyr post Golwg ar Bost.

## Digwyddiadau

Cynhaliwyd trydydd Fforwm Llundain Postcomm yn Sefydliad y Cyfarwyddwyr ym mis Mai 2006 a denodd gynulleidfa o 105 o bobl. Ymhlith y siaradwyr a oedd yn trafod y thema *Rhoi'r cwsmer yn gyntaf*, roedd Jim Fitzpatrick AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gysylltiadau Cyflogaeth a Gwasnaethau Post a benodwyd yn ddiweddar; Michael McClancy o'r Fforwm Cystadleuaeth Post; Yr Athro Peter Andersson o Brifysgol Linkoping, Sweden; Ian Griffiths, rheolwr gyfarwyddwr Llythyrau Post Brenhinol ar y pryd, a Graham Hunt o Powergen. Roedd y digwyddiad yn cynnig digon o gyfle i gynadleddwyr drafod â siaradwyr, a chomisiynwyr, cyfarwyddwyr ac uwch aelodau o staff Postcomm yn uniongyrchol. Yn ôl yr adborth a gafwyd, bu'r Fforwm yn ddefnyddiol iawn.

Ym mis Gorffennaf, cyn cyflwyno cynigion y llywodraeth ar ailstrwythuro rhwydwaith swyddfa'r post, cynhaliodd Postcomm gynhadledd fawr yn Birmingham ar ddyfodol y rhwydwaith. Denodd y gynhadledd siaradwyr allanol o safon, yn cynnwys Alan Cook, rheolwr gyfarwyddwr Swyddfa'r Post Cyf; Colin Baker, ysgrifennydd cyffredinol Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri; Andy Furey, ysgrifennydd cynorthwyol Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, a Christine Lorimy, cyfarwyddwr strategaeth a marchnata is-adran masnachu La Poste. Cymerodd y gynulleidfa fawr ran lawn yn y sesiynau cwestiwn ac ateb a rhoddodd y digwyddiad wybodaeth werthfawr ar gyfer ein hadroddiad blynyddol i'r llywodraeth am y rhwydwaith (gweler tudalen 33).

## **Seminarau a chynadleddau**

Trefnodd Postcomm hefyd nifer o seminarau ar bynciau penodol. Ymhlith y rhain roedd gweithdy ar Adolygiad o Strategaeth Postcomm a seminar ar gynigion prisiau parthol Post Brenhinol.

Cymerodd siaradwyr Postcomm ran yn y cynadleddau mawr canlynol hefyd:

### **Mai 2006, cynhadledd Oxera:**

*Market opening and price control*, Sarah Chambers.

### **Mehafin 2006, cynhadledd datrysiadau caffael y Llywodraeth:**

*Making the most of the competitive market*, Sarah Chambers.

### **Mehafin 2006, cynhadledd y Sefydliad Materion Economaidd:**

*Delivering sustainable competition: how far has the UK progressed?*  
Sarah Chambers.

### **Medi 2006, Pwyllgor yr UE ar Reoleiddio Post Ewrop:**

*UK full market opening: how is it going?* Denise Bagge.

### **Medi 2006, cynhadledd IBM yn Rhufain:**

*A regulator's perspective, levelling the playing field*, Nigel Stapleton.

**Hydref 2006, London Mail Show, 2006:**

*Has the liberalised market benefited the customer and what more needs to be done?*  
Sarah Chambers.

**Chwefror 2007, Seminar WIK Koningswinter 2007, Bonn:**

*Postal markets between monopoly and competition*, Richard Moriarty.

**Mawrth 2007, cynhadledd y Sefydliad Materion Economaidd, Lisboa:**

*Making a liberalised postal market work*, Sarah Chambers.

Bu Postcomm hefyd yn gweithredu'n rhyngwladol, gyda grwpiau bach yn ymweld â Gwlad Belg, Ffrainc, y Weriniaeth Tsiec, Gwlad Pwyl, yr Almaen, Portiwgal ac UDA/Canada i gynnal trafodaethau gydag awdurdodau rheoleiddio, sefydliadau post mawr a chwsmeriaid mawr.

**Cylchlythyr**

Ym mis Mai, gostyngwyd maint cylchlythyr Postcomm sydd am ddim, sef *COMMENTary*, o fformat A4 i tua A5 er mwyn ein galluogi i fanteisio ar y gyfradd bost isaf o dan gynllun Priso'r Post yn ôl Maint a Phwysau Post Brenhinol. Cyhoeddir *COMMENTary* ar wefan Postcomm hefyd. Cynhyrchir Crynodeb o Adroddiad Blynyddol Postcomm mewn fformat sydd tua maint A5 hefyd.

**Rhyngwladol**

Ym mis Hydref 2006, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd (CE) ei gynigion drafft ar y Gyfarwyddeb post nesaf. Rydym yn cefnogi cynnig allweddol y CE i agor marchnad post Ewrop yn llawn i gystadleuaeth o 2009 ymlaen.

Mae Postcomm yn cymryd rhan weithredol yn y drafodaeth ar y Gyfarwyddeb nesaf, gan dynnu ar ein profiad o sicrhau'r gwasanaeth cyffredinol drwy agor y fachnad yn llawn yn y DU ers mis Ionawr 2006. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cyfarfod ag aelodau o'r Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop ac wedi arwain tîm prosiect Pwyllgor Rheoleiddwyr Ewrop ar rolau a phwerau awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol.

Mae Postcomm yn aml yn derbyn ac yn ateb ceisiadau o wledydd eraill, yn Ewrop a gweddill y byd, am wybodaeth am farchnad bost y DU ac am ei waith.

Ein nod yw bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon, gyda staff ymrwymedig, uchel eu cymhelliant, sy'n gwella'n gyson ac a ystyrir fel y sefydliad gorau o'i gymharu â'n grŵp o reoleiddwyr tebyg eraill.

# Defnyddio a datblygu adnoddau yn effeithiol

Mae Postcomm yn awyddus i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu, sy'n ymrwymedig i ddysgu'n barhaus o'r penderfyniadau a wneir gennym ac o ymddygiad gweithredol. Mae hyn yn golygu ymateb i newidiadau yn y farchnad ac i'n rhanddeiliaid yn ogystal â bod yn ymrwymedig ac yn ymatebol i'n staff.

Yn benodol, rydym yn anelu at:

- Barhau yn sefydliad bach o gymharu â rheoleiddwyr eraill, ond gan sicrhau bod gennym bobl ardderchog sy'n cydweithio'n effeithiol ac yn cael cefnogaeth yn eu gwaith ac o ran eu datblygiad personol
- Cynnal diwylliant cyfeillgar, cefnogol ac agored, er mwyn cael y syniadau gorau a'r atebion gorau gan staff ar bob lefel
- Sicrhau bod gan bob aelod o'n staff y systemau busnes, y dechnoleg, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth orau. Rydym wedi dechrau Strategaeth Rheoli Gwybodaeth sydd â'r nod o wella ein dulliau o reoli ein gwybodaeth er mwyn cynyddu ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd
- Dysgu'n barhaus o'n profiad am ein busnes, ein marchnad a'n rhanddeiliaid, er mwyn i ni allu ymateb yn gyflym i ddiogelu anghenion cwsmeriaid ac i lunio'r polisïau cywir i greu marchnad bost ddeinamig yn y DU.

## Staffio

Mae Postcomm yn recriwtio ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac yn dethol yn ôl rhinwedd, yn unol â'r Cod Recriwtio a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Cynhelir gwiriadau mewnol ac allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod hwn.

Recriwtiodd Postcomm 25 aelod o staff rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007. Ar 31 Mawrth 2007, ac eithrio un aelod o staff asiantaeth a'n chwe chomisiynydd allanol, roedd Postcomm yn cyflogi 63 o bobl. Dengys y tabl ddadansoddiad yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

### Cyflogeion Postcomm, Mawrth 2007

|                                 | Dynion | Merched | Lleiafrif ethnig | Anabledd | Cyfanswm y staff |
|---------------------------------|--------|---------|------------------|----------|------------------|
| Prif weithredwr a chyfarwyddwyr | 4      | 3       | 0                | 0        | 7                |
| Aelodau eraill o staff          | 23     | 33      | 9                | 3        | 56               |
| Cyfanswm                        | 27     | 36      | 9                | 3        | 63               |

## Rheoli rhaglenni, prosiectau a risgiau

Mae rheoli risg yn rhan annatod o broses cynllunio busnes Postcomm ac fe'i rheolir yn rhagweithiol ar lefel gorfforaethol, ar lefel prosiect ac ar lefel weithredol o fewn y sefydliad.

Mae Postcomm wedi datblygu model busnes sy'n cynnwys rheoli risgiau a rhaglenni o fewn swyddogaeth ei swyddfa rhaglenni. Caiff pob aelod o staff sy'n ymwneud â chyflwyno prosiectau eu hyfforddi mewn rheoli prosiectau, cynllunio ac asesu risg.

Mae'r swyddfa rhaglenni yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglenni a'r Comisiwn yn fisol ac i bwyllgor archwilio Postcomm yn chwarterol ar risgiau allweddol ac unrhyw broblemau gyda'r fframwaith rheoli mewnol.

## Cyllid

Caiff Postcomm ei ariannu'n bennaf drwy ffioedd trwydded a delir gan Post Brenhinol, sydd â'r gyfran fwyaf (mwy na 96 y cant) o'r farchnad drwyddedig. Ceir crynodeb o'n cyllideb a'n haldro a ragwelir ar gyfer 2006/07, o gymharu â'r alldro ar gyfer 2005/06, yn y tabl canlynol (nid archwiliwyd y ffigurau hyn eto). Disgwylir i'n cyfrifon statudol gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2007.

## Cyllideb ac alldro Postcomm

|   | <b>2005/06</b><br>Alldro gwirioneddol | <b>2006/07</b><br>Cyllideb | <b>2006/07</b><br>Alldro a ragwelir |
|---|---------------------------------------|----------------------------|-------------------------------------|
|   | £000                                  | £000                       | £000                                |
| Costau staff <sub>1</sub>                     | 3,510                                 | 4,074                      | 3,780                               |
| Staff asiantaeth                              | 109                                   | 80                         | 101                                 |
| Costau rhedeg eraill <sub>2</sub>             | 1,947                                 | 1,834                      | 1,975                               |
| Ymgynghorwyr, cyfreithwyr ac ati <sub>3</sub> | 3,663                                 | 3,342                      | 2,533                               |
| <b>Is-gyfanswm</b>                            | <b>9,229</b>                          | <b>9,330</b>               | <b>8,389</b>                        |
| Dibrisiant <sub>4</sub>                       | 484                                   | 805                        | 616                                 |
| Cost cyfalaf                                  | (20)                                  | 25                         | (26)                                |
| <b>Cyfanswm</b>                               | <b>9,693</b>                          | <b>10,160</b>              | <b>8,979</b>                        |
| Gwariant cyfalaf                              | 645                                   | 190                        | 152                                 |

1 Dim ond yn berthnasol i'r staff hynny sydd ar y gyflogres ac mae'n eithrio cost staff asiantaeth sy'n cyflenwi adeg gwyliau, salwch neu pan fydd swyddi gwag.

2 Cost yr adeilad, cymorth TG, ffonau, cyllid, y gyflogres, ac ati.

3 Cost yr economegwyr a'r cyfreithwyr allanol hynny ac ati a ddefnyddir i ategu'r timau mewnol.

4 Yn cyfeirio at gostau anariannol dibrisiant a lleihad parhaol yng ngwerth asedau sefydlog.

Mae'r tanwariant ar gostau staff yn deillio o'r nifer eithriadol o swyddi gwag ar draws y sefydliad yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn. Mae'r tanwariant ar wasanaethau ymgynghoriaeth yn ymwneud yn bennaf â nifer is o achosion erlyn mewn perthynas ag amharu ar bost nag y rhagwelwyd; ac oedi o ran cyflwyno ceisiadau terfynol Post Brenhinol mewn perthynas â phrisiau parthol a materion eraill. Lleihawyd costau cyfreithiol allanol yn sgîl adfer y ddarpariaeth nas defnyddiwyd i gynnal adolygiad barnwrol y llynedd. Ni ddefnyddiwyd yr arian a gadwyd wrth gefn.

## Cynaliadwyedd

Mae Postcomm wedi parhau i geisio gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ei swyddfeydd drwy:

- Osod unedau dwplecs ar bob argraffydd a dewis yr opsiwn i argraffu ar ddwy ochr y dudalen fel yr opsiwn diodyn ar gyfer pob argraffydd er mwyn lleihau faint o bapur a ddefnyddiwn
- Sicrhau bod gan bob un o'n cyfrifiaduron fonitorau sgrîn fflat. Mae'r rhain yn defnyddio llai o bŵer ac yn cynhyrchu llai o wres na monitorau CRT
- Prynu gwydrau ar gyfer y swyddfa er mwyn torri lawr ar wastraff cwpanau plastig
- Defnyddio goleuadau ynni isel yn y swyddfa a synwryddion is-goch i'w rheoli
- Prynu papur o ffynonellau cynaliadwy.

# Trwyddedau a roddwyd gan Postcomm

Mae pob trwydded hirdymor a gyhoeddwyd gan Postcomm:

- Yn caniatáu i'r cwmni trwyddedig ddarparu pob math o wasanaeth post
- Yn cael eu cyhoeddi am gyfnod treigl o ddeng mlynedd
- Yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â chodau ymarfer ar gadw'r post rhag amhariad (diogelwch y post) a gweithdrefnau gweithredu cyffredin (a gynlluniwyd i sicrhau bod y farchnad aml-weithredwr yn gweithio'n effeithiol).

Ar ddiwedd mis Mawrth 2007 roedd 17 o weithredwyr â thrwyddedau hirdymor, gan gynnwys Post Brenhinol:

**ANC Limited (yn masnachu fel ANC Express)**

Parkhouse East Industrial Estate, Newcastle-under-Lyme, Staffordshire ST5 7RB

**Challenger Security Services (Admin) Limited**

PO Box 8572 E3 3SE

**Citipost AMP Limited (Alternative Mail and Parcels Limited gynt)**

16 Gunnery Terrace, Cornwallis Road, Royal Arsenal, London, SE18 6SW

**CMS (enw masnachol Royale Research Limited)**

Record House, 236 Record Street, London SE1 1TL

**DHL Global Mail (UK) Limited (a oedd yn masnachu gynt fel Deutsche Post Global Mail Ltd a Speedmail International Ltd)**

4-8 Queensway, Croydon, Surrey CR0 4BD

**DX Network Services Limited**

DX House, Ridgeway, Iver, Bucks, SL0 9JQ

**Intercity Communications Limited**

64-70 Vyner Street, London E2 9DQ

**Racer Consultancy Management Services Limited**

101 Legacy Centre, Hanworth Trading Estate, Hampton Road West, Feltham TW13 6DH

**Red Star Parcels Limited (yn masnachu fel Lynx Mail)**

St Davids Way, Bermuda Park, Nuneaton, Warwickshire CV10 7SD

**Grŵp y Post Brenhinol Cyf**

Customer Services, Freepost RM1 1AA

**Secure Mail Services Limited (Special Mail Services Limited gynt)**

PO Box 390, Northampton NN3 6YG

**Secured Mail Limited**

Unit 4A, Bechers Drive, Aintree Racecourse Business Park, Liverpool L9 4AY

**Target Express Parcels**

Woodlands Park, Ashton Road, Newton Le Willows, Warrington WA12 0HF

**The Mailing House Group**

Nelson Park, Nelson Way, Cramlington, Northumberland NE23 1JY

**TNT Post UK Limited (TNT Mail UK Limited gynt)**

Unit 1, Globeside Business Park, Fieldhouse Lane, Marlow, Berkshire SL7 1HY

**UK Mail**

Express House, Wolseley Drive, Heartlands, Birmingham B8 2SQ

**Zip Mail Limited**

47 Chancery Lane, London WC2A 1RF

Yn ogystal, mae gan Securicor Omega Express drwydded interim, y gellir ei hadnewyddu bob 12 mis, i ddarparu gwasanaethau ystafell bost mewnol.

# Cyhoeddiadau Postcomm

|  |            |
|--|------------|
| Cyhoeddi trwydded newydd i Secured Mail Ltd  | Ebr 2006   |
| Ymgynghoriad ar drwydded hirdymor i ANC Ltd  | Ebr 2006   |
| Mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau post: dogfen penderfyniad   | Ebr 2006   |
| Postcomm yn cadarnhau cosb cod post o £271,000   | Ebr 2006   |
| Cyhoeddi trwydded newydd i Challenger Security Services (Admin) Ltd  | Meh 2006   |
| Hysbysiad o amrywiad o'r gosb ariannol arfaethedig i'w thalu gan Grŵp y Post Brenhinol   | Meh 2006   |
| Cyhoeddi trwydded newydd i ANC Ltd   | Meh 2006   |
| Adroddiad Blynyddol Postcomm 2005/06   | Gorff 2006 |
| Cyfarwyddyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Post: Cyfranogiad Post Brenhinol mewn tendrau cystadleuol  | Gorff 2006 |
| Adroddiad ar gŵyn am gynnig Post Brenhinol i ddarparu mynediad dosbarthu yn y pen draw ar sail parthau   | Gorff 2006 |
| Adolygiad o Strategaeth Postcomm. Y farchnad bost 2010 a thu hwnt: cwestiynau allweddol i randdeiliaid   | Awst 2006  |
| Gwasanaeth ailgyfeirio i'r farchnad bost gystadleuol: ymgynghoriad   | Awst 2006  |
| Gweithdrefnau cadw'r post rhag amhariad Post Brenhinol: pennu cosb   | Awst 2006  |
| Prisiau parthol gan Post Brenhinol: ymgynghoriad   | Medi 2006  |
| Ymgynghoriad ar drwydded hirdymor i Zip Mail Ltd   | Medi 2006  |
| Amod 10 Trwydded Post Brenhinol: gwaharddiad yn erbyn cael mantais fasnachol annheg. Cwyn am gynnig Post Brenhinol i ddarparu mynediad dosbarthu yn y pen draw ar sail parthau. Adroddiad a phenderfyniad terfynol | Medi 2006  |
| Adolygiad o gynigon Post Brenhinol i newid ei wasanaeth Special Delivery Next Day  | Medi 2006  |
| Amseroedd casglu a dosbarthu Post Brenhinol: ymgynghoriad  | Hyd 2006   |

|  |              |
|--|--------------|
| Post Offices at the Crossroads: Adroddiad blynyddol rhwydwaith Postcomm<br>2005/06   | Hyd 2006     |
| Cyhoeddi trwydded newydd i Zip Mail Ltd  | Hyd 2006     |
| Arolwg Cwsmeriaid Busnes   | Hyd 2006     |
| Adolygiad o'r Farchnad Gystadleuol   | Hyd 2006     |
| Cyhoeddi trwydded newydd i Red Star Parcels Ltd  | Tach 2006    |
| Ymgynghoriad ar drwydded hirdymor i The Mailing House Group Ltd  | Tach 2006    |
| Adolygiad o gais Post Brenhinol am gyfnod rhybudd ar gyfer newidiadau<br>i'w wasanaeth Sameday   | Tach 2006    |
| Ymgynghoriad ar drwydded hirdymor i Mercury International Ltd, sy'n<br>masnachu fel rhan o DHL Global Mail   | Tach 2006    |
| Ymgynghoriad ar gynlluniau iawndal Post Brenhinol mewn perthynas<br>ag oedi a cholled a difrod   | Tach 2006    |
| Cynllun busnes Postcomm 2007/08  | Rhagfyr 2006 |
| Cyhoeddi trwydded newydd i DHL Global Mail (UK) Ltd, sef enw<br>newydd Mercury International Ltd   | Rhag 2006    |
| Postcomm yn rhoi hysbysiad i ddiddymu trwyddedau a ddelir gan<br>Speedmail International Ltd, Red Star Parcels Ltd (hen drwydded),<br>a Deutsche Post Global Mail (UK) Ltd | Ion 2007     |
| Rhoi eithriad i drwydded Post brenhinol ar gyfer gwneud newidiadau<br>i'w wasanaeth Sameday  | Ion 2007     |
| Hysbysiad o'r gofynion ar gyfer treialu cynnyrch newydd a gwneud<br>newidiadau i gynnyrch gan Post Brenhinol: ymgynghoriad   | Ion 2007     |
| Adolygiad o gais Post Brenhinol i ymestyn y cynllun Priso'r Post yn<br>ôl Maint a Phwysau i Packetpost Returns   | Chwef 2007   |
| Cyhoeddi trwydded newydd i The Mailing House Group   | Ebr 2007     |

# Gofynion statudol o ran cyflwyno adroddiadau o dan adran 45(2) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

## **Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau**

Cyflwynir arolwg cyffredinol o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn yn adroddiad y prif weithredwr; dylid ei ystyried ar y cyd â'r penodau yn yr adroddiad hwn sy'n cwmpasu *Diogelu'r gwasanaeth cyffredinol a buddiannau cwsmeriaid, Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy a Rhwydwaith swyddfa'r post.*

## **Cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post**

Gweithredir rhwymedigaethau'r DU o dan y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Post drwy'r amodau yn y drwydded a roddwyd i'r darparwr gwasanaeth cyffredinol, Grŵp y Post Brenhinol Cyf. Ar 25 Mai 2006, gwnaed addasiadau i'r drwydded honno i:

- Ddiffinio cwmpas cyffredinol y gwasanaeth cyffredinol yn well
- Gwaredu gwasanaethau swmp bost penodol o'r gwasanaeth cyffredinol
- Adolygu'r safonau ansawdd sy'n berthnasol i wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau eraill
- Gweithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol o dan y Gyfarwyddeb yn well mewn perthynas â gwasanaethau a yswiriwyd.

Ar y cyd â Golwg ar Bost, mae Postcomm yn monitro cydymffurfiaeth Post Brenhinol â'i rhwymedigaethau o dan y drwydded, yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir i fodloni'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol o dan y Gyfarwyddeb.

Mae Postcomm wedi ymgynghori ar ei bolisi ar gyfer eithriadau daearyddol ac eithriadau eraill i'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol i ddarparu gwasanaeth dosbarthu a chasglu dyddiol a daeth i'r casgliad y dylid parhau â'r trefniadau presennol. Mae Postcomm wedi parhau â'i waith ar drefniadau sydd eu hangen mewn amgylchedd aml-weithredwr, gan ddatblygu trefniadau ar gyfer ailgyfeirio a gyhoeddir maes o law.

Mae Post Brenhinol wedi paratoi a chyflwyno cyfrifon sy'n cydymffurfio ag Erthygl 14 o'r Gyfarwyddeb.

## **Cyflawni safonau perfformiad penodedig gan bob deiliad trwydded**

Fel y nodwyd yn y gorffennol, dim ond Post Brenhinol sy'n meddu ar drwydded sy'n nodi gofynion manwl ar gyfer pennu safonau perfformiad a'u monitro. Byddai pennu safonau ar gyfer gweithredwyr eraill yn anghymesur o ystyried natur eu gweithrediadau; mae pennu safonau ar gyfer Post Brenhinol yn sicrhau bod yn rhaid i weithredwyr eraill ddarparu gwasanaethau o ansawdd cymharol er mwyn iddynt allu cystadlu.

Cynhaliodd Post Brenhinol y gwelliant o ran perfformiad gwasanaeth a nodwyd y llynedd a chyflawnodd pob un o'i dargedau namyn dau.

Er na phennir safonau perfformiad ar gyfer gweithredwyr ar wahân i Post Brenhinol, mae Postcomm wedi parhau i dderbyn gwybodaeth sy'n ymwneud ag amharu ar y post y mae'n ei gludo. Mae Postcomm wedi erlyn unigolion yr amheuir iddynt gyflawni troseddau sy'n ymwneud ag amharu ar y post pryd bynnag y bodlonir y profion tystiolaeth a'r profion budd y cyhoedd ar gyfer cyflwyno achos troseddol. Os nodwyd y cyflawnwyd trosedd fwy difrifol, sef dwyn, pennwyd cosbau ar gyfer y drosedd honno hefyd.

### **Gorchmynion terfynol a dros dro a wnaed yn ystod y flwyddyn**

Ni wnaed unrhyw orchmynion terfynol neu dros dro yn ystod y flwyddyn.

### **Cosbau a bennwyd yn ystod y flwyddyn**

Pennwyd cosbau o £9.62 miliwn ac £1 filiwn yn unol â chasgliad yr ymchwiliad i gadw'r post rhag amhariad a'r ymchwiliad i fynediad parthol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad ar gyfer 2005/06. Mae Post Brenhinol wedi apelio yn erbyn y ddwy gosb. Gwrthodwyd apêl Post Brenhinol yn erbyn y gosb mewn perthynas â chadw'r post rhag amhariad yn yr Uchel Lys ar 13 Mawrth 2007. Mae'r Post Brenhinol wedi gwneud cais i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r Llys Apêl. Trefnwyd bod apêl Post Brenhinol i'r Uchel Lys yn erbyn y gosb a bennwyd mewn perthynas â mynediad parthol yn cael ei wrando ar 13 a 14 Mai 2007.

### **Cynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y blaengynllun gwaith**

Cyflwynir adroddiad ar y cynnydd a wnaed ar y prosiectau a restrir ym mlaengynllun gwaith Postcomm ar gyfer y flwyddyn yn *Adroddiad y prif weithredwr* ac yn y penodau canlynol: *Diogelu'r gwasanaeth cyffredinol a buddiannau cwsmeriaid*, *Hyrwyddo cystadleuaeth gynaliadwy*, *Rhwydwaith swyddfa'r post a Meithrin cydberthnasau effeithiol â rhanddeiliaid*.

### **Adroddiadau ar faterion eraill sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol**

Cyhoeddwyd chweched adroddiad Postcomm ar rwydwaith swyddfa'r post, Post Offices at the Crossroads, ym mis Hydref 2006.

# Cyflwyno adroddiadau yn unol â pharagraff 17.5 o'r Canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 43 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000

## **Perfformiad mewn perthynas ag agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol ar waith Postcomm**

Gwasanaeth cyffredinol: Cwblhawyd ymgynghoriad Postcomm ar ddarparu gwasanaeth cyffredinol mewn amgylchiadau daearyddol eithriadol ac amgylchiadau eraill ac ymestynnwyd y polisi. Ystyriwyd apelïadau o dan y polisi hwnnw yn erbyn eithriadau mewn perthynas ag eiddo penodol.

Prisiau fforddiadwy: mae cystadleuaeth yn sicrhau fwyfwy bod prisiau i gwsmeriaid busnes sy'n defnyddio swmp wasanaethau yn parhau i fod yn fforddiadwy; i gwsmeriaid unigol, mae'r gwariant ar wasanaethau post yn parhau i fod yn gyfran fach iawn o'u treuliau cyffredinol. Bydd y rheolaeth prisiau newydd a gyflwynwyd i drwydded Post Brenhinol ym mis Mai 2006 yn sicrhau y bydd gwasanaethau post cyffredinol yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Amgylcheddol: y cymhellion effeithlonrwydd yn rheolaeth prisiau Post Brenhinol yw'r ffordd bwysicaf y mae Postcomm yn cyfrannu tuag at leihau effeithiau amgylcheddol andwyol gweithrediadau'r post yn anuniongyrchol. Mae Postcomm wedi adolygu ei ymdrechion i leihau effaith amgylcheddol ei weithrediadau ei hun a disgrifir y rhain yn yr adran 'Cynaliadwyedd' ym mhennod '*Defnyddio a datblygu adnoddau yn effeithiol*' yr adroddiad hwn.

## **Darparu cyngor a gwybodaeth glir i gwsmeriaid ar ei waith**

Golwg ar Bost sy'n gyfrifol, yn y lle cyntaf, am roi cyngor i gwsmeriaid ar wasanaethau post. Yn ogystal, mae Postcomm yn cyhoeddi nifer o Daflenni Ffeithiau ac mae ganddo wefan gynhwysfawr. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Postcomm wedi dibynnu ar Golwg ar Bost i ddehongli ei bapurau i gwsmeriaid, ac i gyflwyno barn cwsmeriaid iddo. Mae cyhoeddi'r Mesur Defnyddwyr, Gwerthwyr Tai ac Unioni yn dynodi diwedd Golwg ar Bost a'r broses o drosglwyddo rhai o'i swyddogaethau i gyrff eraill. Bu Postcomm yn gweithio i sicrhau y bydd y wybodaeth werthfawr a gafodd gan Golwg ar Bost yn y gorffennol yn parhau i fod ar gael i ni yn y dyfodol, cyhyd â bo hynny'n bosibl.

## **Sefyllfa cwsmeriaid diamddiffyn**

Ni fu unrhyw newid i'r gwasanaethau a ddarperir am ddim gan Post Brenhinol i'r deillion. Ni fu unrhyw newid i'r gofynion trwyddedu sy'n pennu'r safonau ar gyfer agosrwydd blychau post a swyddfeydd post i ddefnyddwyr.